

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON Y BBC

2011/12

# CENHADAETH Y BBC

Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu. O dan delerau'r Siarter a'r Cytundeb, drwy ei raglenni a'i wasanaethau, dylai'r BBC hyrwyddo chwe phwrpas cyhoeddus:

1. Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil
2. Hyrwyddo addysg a dysgu
3. Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol
4. Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau
5. Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU
6. Helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd

www.bbc.co.uk/annualreport

Mae'r llun ar y clawr yn dangos Jessica Raine a Helen George yng nghyfres ddrama hynod boblogaidd BBC One, *Call the Midwife*.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON Y BBC 2011/12

**Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol**
**dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon**
**ar Orchymyn Ei Mawrhydi**
**Gorffennaf 2012**

Gosodwyd fersiynau ehangach o'r datganiadau ariannol yn Rhan Dau o'r adroddiad hwn gerbron y Senedd hefyd ar 16 Gorffennaf 2012 ac maent ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport

**Hawlfraint**
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

**Dyluniad**
luminous.co.uk

**Cyfieithiad**
Prysg Cyf

**Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2006 (Erth. 45)**

BBC Trust Ymddiriedolaeth



RHAN 1

# AROLWG AC ASESIAD YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Dominique Moore yn chwarae rhan Mary Seacole, nyrs o Jamaica sy'n fwyaf enwog am ei rhan yn Rhyfel y Crimea, yn *Horrible Histories* ar CBBC (Cyfres 4, Pennod 5). Mae'r gyfres deledu lwyddiannus hon yn helpu i addysgu plant am hanes Prydain.

# CYNNWYS A MYNEGAI PWNC


**Cynnwys Rhan 1 Ymddiriedolaeth y BBC**

**Trosolwg**

1-1 Rhagair y Cadeirydd
1-2 Crynodeb o'r flwyddyn
1-4 BBC ar gyfer y dyfodol

**Perfformiad y BBC**

1-6 Sicrhau gwerth am arian
1-10 Pwrpasau cyhoeddus
1-11 Perfformiad gwasanaethau
1-16 Gwasanaethu pob cynulleidfa
1-18 Sicrhau safonau golygyddol
1-20 Masnachu'n deg

**Atebolrwydd i gynulleidfaoedd**

1-22 Bod yn dryloyw
1-23 Deall cynulleidfaoedd
1-24 Cynghorau Cynulleidfa

**O fewn yr Ymddiriedolaeth**

1-26 Ymddiriedolwyr y BBC
1-28 Llywodraethu
1-33 Cyllid yr Ymddiriedolaeth
1-35 Cysylltu â'r Ymddiriedolaeth

| Mynegai Pwnc | Rhan 1 | Rhan 2 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd | 1-9/1-32 | 2-48 |
| Strategaeth fasnachol | 1-8 | 2-36 |
| Cwynion | 1-3/1-19 | 2-55 |
| Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf | 1-4/1-6 | 2-14 |
| Trosglwyddo i ddigidol | – | 2-25 |
| Dosbarthu | 1-17 | 2-25 |
| Blaenoriaethau golygyddol | – | 2-14 |
| Safonau golygyddol | 1-3/1-18 | 2-38 |
| Effeithlonrwydd | 1-6 | 2-59/2-61 |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 1-16 | 2-31 |
| Cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol | – | 2-40 |
| Masnachu teg | 1-20 | 2-55 |
| Bod yn ddiduedd | 1-18 | 2-15 |
| Ffi'r drwydded | 1-7 | 2-3/2-62 |
| Pwrpasau cyhoeddus | 1-10 | 2-14 |
| Cyrhaeddiad fesul gwasanaeth | – | 2-4 |
| Cydnabyddiaeth uwch reolwyr | 1-7/1-33 | 2-30 |
| Perfformiad gwasanaethau | 1-11 i 1-15 | 2-4 i 2-7 |
| Gwariant fesul gwasanaeth | – | 2-64 |
| Amcanion strategol | 1-4 | 2-14 |
| – Gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa | 1-17 | 2-23 i 2-25 |
| – Gwella gwerth am arian | 1-2/1-6 i 1-9 | 2-22 |
| – Gwella natur nodedig ac ansawdd | 1-2/1-13 | 2-14 i 2-21 |
| – Gosod safonau newydd o fod yn agored a thryloyw | 1-22 | 2-26 |
| Syndicetio cynnwys y BBC | 1-3/1-17 | 2-11 |
| Costau talent | 1-7 | 2-33 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth | 1-33 | 2-65 |
| Ymddiriedaeth yn y BBC | – | 2-15 |
| Ymddiriedolwyr | 1-26 | 2-49 |


**Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2006 (Erth. 45)**

# RHAGAIR Y CADEIRYDD



**Pan gefais fy mhenodi yn Gadeirydd y llynedd dywedais bod y BBC ar ei orau yn sefydliad darlledu ag ansawdd a gonestrwydd unigryw. Ar ôl blwyddyn yn y swydd rwyf yn fwy argyhoeddedig o hyn.**

Yn y bôn, mae hyn yn ymwneud â chynnwys. O gael cipolwg ar restrau rhaglenni teledu a radio unrhyw wythnos bron dros y flwyddyn ddiwethaf ceir sawl enghraifft o'r rhaglenni nodedig o safon y dylai'r BBC fod yn eu gwneud. Wrth gwrs mae hon yn her dragwyddol, ac er nad yw'r BBC yn cyrraedd y targed bob tro, mae rhaglenni fel *Field of Blood*, y ddrama o'r Alban, ar un pegwn a *Deadly 60* ar y pegwn arall yn dangos beth y gellir ei gyflawni. A hynny heb sôn am ddeunydd ar-lein.

Mewn blwyddyn lle cafwyd llif parhaus bron o straeon newyddion anferth – yr argyfwng yn Ardal yr Ewro, hacio ffonau a'r Gwanwyn Arabaidd i enwi rhai – sicrhaodd y BBC gydbwysedd cywir yn gyson rhwng argyfwng a dadansoddiadau. Ac o ran materion cyfoes cawsom ein hatgoffa gan raglen *Panorama* ar achosion o gam-drin mewn cartref gofal ym Mryste y gall newyddiaduraeth ymchwiliol fod yn ddull effeithiol o ddatgelu drygioni ac o ddiogelu'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Un o'r prif heriau dros y flwyddyn ddiwethaf oedd gweithio allan sut y gall y BBC barhau i greu rhaglenni gwych gyda llai o arian. Ni fydd y cynllun rydym wedi'i lunio yn un rhwydd, ond rydym wedi cyfyngu ar yr effaith ar y sgrin a'r tonfeddi drwy ffocysu ymdrechion ar effeithlonrwydd gwell mewn gweithrediadau cefn swyddfa lle bynnag y bo'n bosibl.


Wrth gwrs, nid yw'r BBC yn berffaith ac roedd tâl staff uwch yn un o'r meysydd yr oedd angen ei newid. Dros y flwyddyn ddiwethaf goddiweddodd y BBC ar ei darged o gwtogi un rhan o bump o'i uwch reolwyr ac o dorri bil cyflogau uwch reolwyr o chwarter. Byddwn yn gwneud mwy eto, yn cynnwys cyhoeddi gwybodaeth am gyflogau'r swyddogion gweithredol uchaf mewn perthynas â thâl cyfartalog staff y BBC, a chan ddefnyddio'r lluosrif hwn i gapio cyflogau.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gwneud newidiadau i'r modd y caiff y BBC ei lywodraethu, yn cynnwys symleiddio'r system gwyno, gan roi mwy o rôl i Ofcom pan fyddwn yn ystyried cynigion ar gyfer gwasanaethau newydd, ac egluro rolau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol ymhellach.

Datgelodd ein hymchwil dros y flwyddyn bod y rhan fwyaf o gartrefi o'r farn eu bod yn cael gwerth da am eu 40 ceiniog y dydd, ond ni allwn gymryd hyn yn ganiataol. Eleni gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a fydd yn ein helpu i wella gwerth am arian i gynulleidfaoedd.

Felly mae wedi bod yn flwyddyn eithaf da i'r BBC, gyda llawer i'w ddathlu, rhai problemau parhaus i'w datrys, a chyfnod heriol o'n blaenau wrth i'r BBC, fel gweddill y sector cyhoeddus, geisio bod yn fwy darbodus. Ond rwyf yn argyhoeddedig y gall y BBC ddarparu i'w gynulleidfaoedd mewn amseroedd mwy cyfyngedig.

Yn olaf, mae llwyddiannau'r flwyddyn hon ac yn wir, bob blwyddyn ers 2004, wedi digwydd o dan arweinyddiaeth Mark Thompson, a fydd yn rhoi'r gorau i'w swyddogaeth cyn bo hir. Mae Mark wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyffredinol eithriadol sydd wedi arwain y BBC gyda gonestrwydd, eglurdeb pwrpas ac ymrwymiad i werthoedd cyhoeddus. Bydd colled fawr ar ei ôl a hoffwn ddymuno'r gorau iddo ar gyfer y dyfodol.



Yr Arglwydd Patten o Barnes CH
Cadeirydd

Mewn blwyddyn lle cafwyd straeon newyddion anferth, sicrhaodd y BBC gydbwysedd cywir yn gyson rhwng argyfwng a dadansoddiadau

Rhagorodd y BBC ar ei darged i gwtogi ar nifer yr uwch reolwyr un rhan o bump a bil cyflogau uwch reolwyr chwarter

# CRYNODEB O'R FLWYDDYN

Diben Ymddiriedolaeth y BBC yw sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Golyga hyn bennu strategaeth a gweledigaeth glir er mwyn sicrhau bod pob un – o fewn y BBC a'r tu allan – yn deall beth y mae angen iddo ei ddarparu. Yma, mae'r Ymddiriedolwyr yn egluro sut rydym wedi gweithio er budd talwyr ffi'r drwydded dros y flwyddyn ddiwethaf.



## Sicrhau gwerth am arian

**Rotha Johnston, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid yr Ymddiriedolaeth hyd at fis Rhagfyr 2011**

Mae'r cyhoedd yn disgwyl i ffi'r drwydded gael ei gwario'n effeithlon ac yn effeithiol, ac mae'n deg iddynt ddisgwyl hynny. Fel Ymddiriedolwyr, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod hyn yn digwydd. Rydym yn herio costau mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys pennu targedau effeithlonrwydd i'r BBC yn gyffredinol, a chyfyngiadau ar gyfer cyflogau uwch swyddogion gweithredol, a chynnal rhaglen o arolygon gwerth am arian manwl.

Eleni sicrhaodd rhaglen effeithlonrwydd y BBC tua £500miliwn o arbedion heb unrhyw effaith negyddol ar niferoedd cynulleidfaoedd cyffredinol nac ar y gwerthfawrogiad o raglenni. Credwn y gall y BBC wneud arbedion pellach ac rydym wedi pennu targed newydd o 11% o arbedion effeithlonrwydd erbyn 2016/17 fel rhan o strategaeth Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ehangach y BBC.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni heb amharu ar y rhaglenni nodedig o safon y mae cynulleidfaoedd wrth eu boddau â hwy.

> 'Rydym wedi pennu targed newydd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd'



## Gwneud rhaglenni nodedig

**David Liddiment, Cadeirydd y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad**

Roedd eleni'n nodi carreg filltir i'r Ymddiriedolaeth: rydym bellach wedi cwblhau arolygon o holl wasanaethau domestig y BBC. Mae'r arolygon hyn wedi dangos y gwerth gwych y mae'r gwasanaethau hyn, sy'n amrywio o BBC One i BBC 6Music i BBC Ar-lein, yn ei roi i dalwyr ffi'r drwydded.

Maent hefyd wedi ein galluogi i nodi meysydd lle gall y gwasanaethau wneud yn well fyth – fel bod yn fwy nodedig o fewn portffolio'r BBC ac o fewn eu marchnadoedd, a diwallu anghenion pob cynulleidfa, yn cynnwys y rheini yng ngogledd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y mae eu gwerthfawrogiad o'r BBC yn is yn draddodiadol.

Credaf yn gryf y gall y BBC wneud hyd yn oed mwy i fynd i'r afael â'r materion hirsefydlog hyn a byddwn yn parhau i ganolbwyntio arnynt wrth i ni ddechrau ar ein hail gylch o arolygon gwasanaeth yn ddiweddarach yn 2012.

> 'Mae gwasanaethau'r BBC yn rhoi gwerth gwych ond gallent fod hyd yn oed yn fwy nodedig'



### Sicrhau safonau golygyddol
**Alison Hastings, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Golygyddol**

Ar adeg lle mae craffu heb ei fath ar y wasg a'r cyfryngau, mae'n rhaid i'r BBC barhau i geisio cynnal y safonau golygyddol uchaf. Mae hyn yn hanfodol i ymddiriedaeth cynulleidfaoedd – nid yn unig yn y cynnwys ei hun ond hefyd yn y BBC fel sefydliad.

Dyna pam mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio'n gryf ar fod yn ddiduedd eleni. Gwnaethom gynnal arolwg ar natur ddiduedd a chywirdeb y sylw a roddwyd i'r 'Gwanwyn Arabaidd' – pwnc sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd yn y DU a thramor. Gwnaethom hefyd gyhoeddi cyfres o seminarau i edrych ar fod yn ddiduedd wrth roi sylw i faterion pynciol.

Rwyf yn hyderus y bydd ein gwaith yn y maes hwn yn helpu i sicrhau bod y BBC yn rhoi amser priodol ar yr awyr i amrywiaeth o safbwyntiau a lleisiau; rhwymedigaeth bwysig i ni fel darlledwr yr ymddiriedir ynddo.

**'Mae sicrhau'r safonau golygyddol uchaf yn hanfodol o ran ymddiriedaeth cynulleidfaoedd yn y BBC'**



### Cysylltu â mwy o gynulleidfaoedd drwy dechnoleg newydd
**Diane Coyle, Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chymeradwyaeth**

Mae pobl bellach yn disgwyl gallu cael gafael ar y rhaglenni y maent wrth eu boddau â hwy gan y BBC mewn sawl ffordd – blychau ar ben setiau teledu, cyfrifiaduron personol, ffonau symudol, tabledi, consolau gemau, teledu â chysylltiad â'r rhyngrwyd. Felly gwnaethom benderfynu bod yn rhaid i ni adolygu sut mae'r BBC yn cyrraedd ei chynulleidfaoedd drwy'r holl dechnolegau newydd hyn, ac eleni cyhoeddwyd ein polisi newydd.

Gwnaethom ddechrau drwy nodi y dylai cynnwys y BBC fod ar gael am ddim i gymaint o bobl mewn cymaint o ffyrdd â phosibl, ond bod yn rhaid gwneud hyn yn gost-effeithiol; ac y dylai'r BBC geisio lleihau unrhyw effeithiau andwyol y gall ei weithredoedd eu cael ar y farchnad fasnachol. Mae talwyr ffi'r drwydded hefyd yn disgwyl y dylai cynnwys y BBC fod o safon gyson uchel, ac y dylai gynnwys nodweddion fel rheolaeth rhieni a hygyrchedd, ac mae'n deg iddynt ddisgwyl hynny.

Credaf fod ein polisi syndicetio newydd yn cyflawni hyn, ac yn rhoi digon o hyblygrwydd i'r BBC addasu ar gyfer newid technolegol yn y dyfodol.

**'Cyflwyno'r BBC i gymaint o bobl â phosibl mewn cymaint o ffyrdd â phosibl'**



### Diwygio system gwyno'r BBC
**Richard Ayre, Cadeirydd y Bwrdd Cwynion ac Apeliadau**

Mewn perthynas â mynd i'r afael â chwynion, nid yw'r BBC wedi dal i fyny â thechnoleg cyfathrebu fel negeseuon e-bost a rhwydweithiau cymdeithasol. Ymhellach, er bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n cwyno yn fodlon ag ymateb cychwynnol y BBC, yn rhy aml mae'r rhai sy'n apelio o'r farn bod y system yn llafurus ac yn araf. Felly gofynnodd yr Ymddiriedolaeth am arolwg sylfaenol i ddod o hyd i ffordd symlach, fwy ymatebol a chost-effeithiol o fynd i'r afael â thua chwarter miliwn o gwynion y flwyddyn.

Rydym wedi cytuno ar welliannau i'r system gwyno i'w chyflymu, ei symleiddio, ac i ffocysu adnoddau lle mae wir eu hangen. Os bydd y BBC yn gwneud rhywbeth o'i le, dylai'r newidiadau hyn sicrhau bod cwynion yn cyrraedd y bobl sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â hwy yn gyflymach. Ac, os bydd y BBC weithiau'n gwneud rhywbeth mawr o'i le, dylai gynnig ateb sy'n amserol ac yn glir.

**'Ffordd symlach, fwy ymatebol a chost-effeithiol o fynd i'r afael â chwynion'**

# BBC AR GYFER Y DYFODOL

Mae Cadeirydd Ymddiriedolwyr y BBC yr Arglwydd Patten yn myfyrio ar bwrpas y BBC a'r rôl y mae'n ei chwarae ym mywyd creadigol a chyhoeddus y genedl, yn ogystal â'r ffordd orau iddo gynnal ei enw da a'i werthoedd cyhoeddus.

Mae sicrwydd ffi'r drwydded a'r sail eang o gefnogaeth a hoffter y cyhoedd at y BBC yn rhoi rhyddid a chyfrifoldeb iddo fyw'n beryglus ar adegau

Mae'n rhaid i'r BBC barhau i sicrhau gwell gwerth am arian, ynghyd â phennu safonau newydd o ran bod yn agored a thryloyw

Beth yw diben y BBC? Beth ddylai fod yn ceisio ei wneud? Ac a yw cystal ag y gall fod? Dyma dri chwestiwn yr wyf wedi eu harchwilio yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd. Nid fel rhan o ryw ymarfer bogailsyllol, ond oherwydd y bydd yr atebion yn helpu'r Ymddiriedolaeth i ddiffinio cyfeiriad y BBC i'r dyfodol.

Deuthum i'r casgliad na ddylai'r BBC ofni'r teitl 'deallusol', ond na ddylai ychwaith geisio bod yn rhy uchel-ael. Yn hytrach, dylai geisio meddiannu tiriogaeth lle ceir y rhan fwyaf o'r gynulleidfa sydd am gael eu diddanu gan y BBC, ond sydd hefyd am gael eu hysbysu, eu haddysgu a'u hysbrydoli ganddo.

Mae hyn yn bwysig oherwydd os gall y BBC annog miliynau o bobl i ddilyn syniadau a dyheadau newydd, yna mae eisoes wedi gwneud llawer yn ei ymgyrch i gyfiawnhau ei gyllid a'i safle dyrchafedig ym mywyd diwylliannol y genedl.

Wrth wneud hyn ni ddylai'r BBC geisio dewis rhwng bod yn boblogaidd a bod yn ddeallusol. Dylai geisio gwneud y ddau. Mae rhaglenni fel *Stargazing Live*, *Sherlock* a *Today* yn enghreifftiau o'i allu i gyflawni hyn.

Un peth rwyf yn argyhoeddedig ohono yw na fydd y BBC byth yn ffynnu drwy chwarae'n saff. Mae sicrwydd ffi'r drwydded a'r sail eang o gefnogaeth a hoffter y cyhoedd at y BBC yn rhoi rhyddid a chyfrifoldeb iddo fyw'n beryglus ar adegau. Dylai fanteisio ar y cyfle hwnnw, nid drwy ostwng safonau diwylliannol neu dderbyn safonau gwael neu ddi-chwaeth, ond drwy osod y bar yn uchel iddo'i hun a pharhau i'w godi.

Mae hyn yn golygu creu rhaglenni o safon, ac sydd hefyd yn wirioneddol nodedig, yn wirioneddol wahanol i'r hyn a gynigir gan ddarparwyr eraill – yn wirioneddol nodweddiadol o'r BBC. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod amser brig ar y prif sianelau teledu a gorsafoedd radio, BBC One a BBC Two a BBC Radio 1 a BBC Radio 2, lle mae'r BBC yn denu ei gynulleidfaoedd mwyaf. Wrth wneud hynny ni ddylai'r BBC ddarparu ar gyfer buddiannau lleiafrif yn unig; rhaid iddo sicrhau ei fod yn berthnasol i bob un a dylai geisio gwasanaethu pawb sy'n talu ffi'r drwydded.

Rwyf yn deall bod hyn yn anodd i reolwyr sianelau a chomisiynwyr pan fydd niferoedd gwylwyr a gwrandawyr dros nos yn cael eu cyfleu ar gardiau sgorio dyddiol mor gyhoeddus. Felly mae canfod ffyrdd o helpu'r rhai sy'n gwneud ac yn comisiynu rhaglenni i ddiffinio'r hyn y mae'n ei olygu i'r BBC i lwyddo mewn ffyrdd eraill heblaw niferoedd gwylwyr a gwrandawyr bob amser wedi bod yn rhan o waith yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol.

Er mai rhaglenni sydd wrth wraidd yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud, ceir heriau eraill. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y BBC yn parhau i fod ar flaen datblygiadau technolegol ac yn parhau i gyrraedd talwyr ffi'r drwydded mewn ffyrdd newydd, heb droi cefn ar ei gynulleidfa graidd.

Mae'n rhaid i'r BBC hefyd barhau i sicrhau gwell gwerth am arian, ynghyd â phennu safonau newydd o ran bod yn agored a thryloyw, yn benodol drwy ddweud wrth bobl sut mae'n gwario ffi'r drwydded.

Ac mae'r modd y mae'r BBC yn mynd ati i gyflawni'r amcanion hyn hefyd yn bwysig. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y BBC bob amser.

Os bydd y BBC yn llwyddo i gyflawni'r holl nodau hyn, bydd yn parhau i gyfiawnhau'r hoffter a'r ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd ynddo ac i wella ei enw da haeddiannol fel darlledwr gorau'r byd yn fy marn i.

**Amcanion strategol Rhoi Ansawdd yn Gyntaf**

Ym mis Rhagfyr 2010 pennodd yr Ymddiriedolaeth bedwar amcan strategol ar gyfer y BBC sy'n ategu strategaeth Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf. Rydym yn rhoi adroddiad ar y perfformiad yn erbyn y rhain ar y tudalennau canlynol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded | Gwella natur nodedig ac ansawdd yr allbwn | Gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa | Pennu safonau newydd o ran bod yn agored a thryloyw |



# PERFFORMIAD Y BBC

Mae monitro perfformiad y BBC yn un o swyddogaethau allweddol yr Ymddiriedolaeth. Rydym yn gweithio i sicrhau ei fod yn darparu gwerth am arian; rydym yn monitro perfformiad gwasanaethau'r BBC a gweithgareddau eraill gyda chynulleidfaoedd ac yn monitro sut mae'n cyflawni chwe phwrpas cyhoeddus y BBC. Rydym yn asesu cydymffurfiad â safonau golygyddol a fframweithiau masnachu teg. Rydym wedi pennu pedwar amcan strategol i dywys y BBC yn y dyfodol.



Mel Giedroyc a Sue Perkins yn cyflwyno'r ail gyfres o *The Great British Bake Off* ar BBC Two, gan ddod â phobl ynghyd o bob rhan o'r DU i ddathlu coginio cartref ardderchog.

# SICRHAU GWERTH AM ARIAN




Huw Edwards yn cyflwyno'r *Ten O'Clock News*. Mae cynulleidfaoedd yn parhau i ddibynnu ar BBC News o ran newyddion a materion cyfoes y gellir ymddiried ynddynt.

**Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r BBC ddefnyddio ffi'r drwydded yn effeithlon ac yn effeithiol. Ein her yw sicrhau bod y BBC yn effeithlon iawn heb roi'r gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi yn y fantol. Eleni, mae'r BBC wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol heb unrhyw effaith andwyol ar niferoedd cyffredinol cynulleidfaoedd na sgoriau gwerthfawrogiad.**

## Gwerth am arian yn y BBC

Yn y bôn, mae gwerth am arian yn golygu'r gydberthynas rhwng cost a pherfformiad: yr hyn a gewch am yr arian a gaiff ei wario. O ran y BBC, mae hyn yn golygu darparu gwasanaethau nodedig o ansawdd uchel yn erbyn gofynion heriol setliad ffi'r drwydded. Mae cynulleidfaoedd am weld bod eu harian yn cael ei wario ar allbwn o ansawdd da felly mae'r BBC yn canolbwyntio ar wneud arbedion nad ydynt yn effeithio ar ansawdd na chwmpas ei wasanaethau ac yn ailfuddsoddi'r arbedion hyn yn ei feysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae ymdrechu i sicrhau arbedion a monitro perfformiad y BBC yn hyn o beth yn un o'n gweithgareddau allweddol. Rydym yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- strategaeth ariannol hirdymor y BBC
- gweithgareddau casglu ffi'r drwydded
- cynigion ariannol sylweddol
- arolygon manwl o weithgareddau a gwasanaethau'r BBC
- strategaeth fasnachol BBC Worldwide
- y strategaeth ar gyfer cyflogau'r Bwrdd Gweithredol

Eleni, cyflawnodd y BBC arbedion effeithlonrwydd sylweddol heb unrhyw effaith andwyol ar niferoedd cyffredinol cynulleidfaoedd na sgoriau gwerthfawrogiad. Mae hyn yn neges gadarnhaol o ran gwerth am arian y BBC. Dangosodd canlyniadau Arolwg Cylch Gwaith Pwrpas yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011/12 fod 56% o oedolion yn y DU yn cytuno bod eu cartref yn cael gwerth da gan ffi'r drwydded.

Mae'r lefel gwerthfawrogiad hon wedi parhau'n sefydlog dros y pedair blynedd diwethaf ond mae'n awgrymu bod angen esbonio sut y caiff yr arian ei wario yn well.

## Strategaeth ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn pennu strategaeth lefel uchel a chyllideb y BBC ac yn sicrhau bod y BBC yn atebol am ei berfformiad ariannol a pherfformiad ei wasanaethau.

### Arbedion effeithlonrwydd

Gwnaethom bennu targed i'r BBC gyflawni arbedion effeithlonrwydd o 3% y flwyddyn yn ystod y cyfnod 2008/09 – 2012/13. Eleni oedd blwyddyn olaf ond un y rhaglen effeithlonrwydd honno, a lwyddodd i gyflawni £499miliwn o arbedion yn 2011/12 yn erbyn llinell sylfaen 2008/09. Credwn y gall y BBC wneud arbedion pellach ac eleni gwnaethom bennu targed newydd i gyflawni 11% o arbedion ychwanegol erbyn 2016/17. Bydd yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn cyfrannu at strategaeth Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ehangach y BBC.

Ym mis Gorffennaf 2011, gwnaethom gomisiynu arolwg annibynnol gan Ernst & Young i asesu pa un a oedd y Bwrdd Gweithredol wedi mynd ati i roi rhaglen effeithlonrwydd Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ar waith mewn ffordd gynhwysfawr a thrwyadl. Ym mis Medi 2011, daeth Ernst & Young i'r casgliad o'u canfyddiadau ar y pryd bod y Bwrdd Gweithredol yn rhedeg rhaglen effeithiol a bod cynigion cadarn a heriol wedi deillio o'r rhaglen honno mewn perthynas ag effeithlonrwydd. Nododd eu hadroddiad hefyd bod angen rhagor o waith, yn anochel, i ddatblygu

cynlluniau arbedion cost manwl, yn arbennig ar gyfer blynyddoedd olaf y rhaglen, a gwnaeth argymhellion o ran sut y gall y BBC roi'r cynlluniau hyn ar waith mewn amgylchedd economaidd heriol.

Ein ffocws y flwyddyn nesaf fydd monitro'r broses o roi Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ar waith, yn arbennig sicrhau na wneir arbedion effeithlonrwydd ar draul ansawdd na chwmpas gwasanaethau'r BBC.

### Perfformiad yn erbyn cyllidebau trwydded gwasanaethau

Rydym yn cyhoeddi trwydded gwasanaeth ar gyfer pob un o 28 o wasanaethau'r BBC, gan nodi'r hyn rydym yn disgwyl iddo ei gyflawni a'i gyllideb. Os bydd y gwasanaeth yn troswario neu'n tanwario fwy na 10%, rydym yn ystyried pa un a yw cymeriad y gwasanaeth wedi newid yn sylweddol. Llwyddodd pob gwasanaeth i berfformio o fewn y terfynau a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac eithrio BBC HD, BBC Radio 1 Xtra, BBC Radio 5 Live, BBC Radio 4 Extra a BBC Red Button lle cafwyd tanwariant o fwy na 10%. Rydym yn fodlon nad yw'r achosion hyn o danwario wedi rhoi ansawdd na chwmpas y gwasanaethau yn y fantol.

### Cyflog talent

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talent i gynulleidfaoedd a'r cyfraniad a wna at natur nodedig rhaglenni. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y BBC yn rhoi cytundebau priodol ar waith sy'n cynrychioli gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Yn 2009, gwnaethom ofyn i'r BBC leihau'r swm y mae'n ei wario ar dalent, yn arbennig y talent mwyaf poblogaidd, heb roi ansawdd rhaglenni yn y fantol. Mae'r BBC yn parhau i fodloni'r ymrwymiad hwn ac eleni, gwariodd tua £203miliwn ar dalent, sef £9.5miliwn yn llai na'r llynedd.

### Sicrhau bod ffi'r drwydded yn cefnogi'r economi ehangach

Drwy'r ffordd y mae'n gwario ffi'r drwydded, mae'r BBC yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi economi greadigol ehangach y DU. Mewn hinsawdd economaidd heriol, gall sicrwydd ffi'r drwydded fod yn ffynhonnell arian bwysig i fusnesau llai a chynhyrchwyr annibynnol, ac yn allweddol i'w llwyddiant. Gwariodd y BBC £1,095miliwn yn economi greadigol y DU yn ystod 2011/12. Comisiynodd y BBC 37% ac 19% o'r cynnwys teledu a radio cymwys gan gynhyrchwyr allanol, yn y drefn honno.

### Casglu ffi'r drwydded

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am drefniadau casglu ffi'r drwydded y BBC ac rydym yn anelu at sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn briodol. Mae'r cyhoedd yn disgwyl i gymaint â phosibl o ffi'r drwydded gael ei wario ar raglenni a chynnwys o ansawdd uchel. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae swm ffi'r drwydded a wariwyd ar gasglu wedi parhau'n sefydlog ar 3.4%. Mae cost gyfun casglu ac osgoi talu hefyd wedi parhau'n sefydlog, ar 8.6% o incwm ffi'r drwydded.

### Cynigion ariannol sylweddol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn craffu ar gynigion ariannol allweddol y BBC lle y cânt effaith sylweddol ar gyllid y BBC. Eleni, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth y penderfyniad i aildendro contract casglu a gweinyddu TV Licensing y BBC. Disgwylir i'r contract newydd gyflawni arbedion sylweddol yn ystod yr wyth mlynedd nesaf.

### Arolygon manwl

Rydym yn comisiynu arolygon manwl o weithgareddau'r BBC, megis arolwg Ernst & Young o raglen effeithlonrwydd Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf. Yn ogystal, rydym yn cynnal ein harolygon ein hunain o wasanaethau'r BBC. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn cynnal arolygon gwerth am arian ac yn cyflwyno adroddiadau ar ei chanfyddiadau i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod y BBC yn gweithredu ar yr argymhellion a wneir yn yr arolygon hyn, ac mae'r Bwrdd Gweithredol yn adrodd yn ôl i ni ar ei gynnydd yn erbyn y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

### Arolygon gwasanaeth

Rydym yn adolygu pob un o wasanaethau'r BBC er mwyn asesu ei berfformiad yn erbyn ei drwydded gwasanaeth o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae'r rhaglen dreigl hon o arolygon yn ein helpu i asesu gwerth am arian y BBC ar lefel gwasanaethau unigol.

Eleni, gwnaethom adolygu: BBC Radio 5 Live; BBC 5 Live Sports Extra; BBC News Channel;

**Cyflawnodd y BBC £499miliwn o arbedion effeithlonrwydd yn 2011/12**

## Amcan strategol

## GWELLA GWERTH AM ARIAN I DALWYR FFI'R DRWYDDED

Eleni parhaodd y BBC i wella ei effeithlonrwydd a'i werth am arian. Y flwyddyn nesaf, bydd y BBC yn anelu at sicrhau arbedion pellach.

**£499m**

Arbedion effeithlonrwydd yn 2011/12

Rhagorodd yr arbedion effeithlonrwydd blynyddol ar y targed o 3% a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth.



**–24.4%**


Rhagorodd y Bwrdd Gweithredol ar y targed o ostyngiad o 20% yn nifer yr uwch reolwyr.[1]

[1] Diffinnir 'uwch reolwr' fel cyflogai gwasanaeth cyhoeddus mewn gradd uwch reolwr.



**–26.9%**

Rhagorodd y Bwrdd Gweithredol ar y targed o ostyngiad o 25% ym mil cyflogau'r uwch reolwyr.



**56%**

Cred 56% o oedolion yn y DU fod y BBC yn cynnig gwerth da am arian.[2]

[2] Astudiaeth cylch gwaith pwrpas 2011/12.

# SICRHAU GWERTH AM ARIAN
## PARHAD



Matt Smith fel y Doctor a Karen Gillan fel Amy Pond yn *Doctor Who*, un o allforion mwyaf gwerthfawr y BBC drwy BBC Worldwide.

BBC Parliament; BBC Asian Network; Radio Lleol y BBC; a gorsafoedd radio cenedlaethol y BBC yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn gyffredinol, cafwyd gennym bod pob gwasanaeth yn gweithredu o fewn y gyllideb trwydded gwasanaeth y cytunwyd arni tra'n llwyddo'n gyffredinol naill ai i gynnal neu wella ei berfformiad cyffredinol o ran cyrhaeddiad ac ansawdd. Gan edrych i'r dyfodol, bydd angen i bob gwasanaeth ymateb i'r her o gyflawni'r arbedion a gynigir o dan strategaeth newydd y BBC, tra'n cynnal neu'n gwella ansawdd.

### Arolygon y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiadau ar y ddau arolwg canlynol yn 2011.

#### Rhaglen effeithlonrwydd y BBC

Ystyriod yr arolwg hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gynnydd y BBC hyd at fis Mawrth 2011 o ran cyflawni ei raglen effeithlonrwydd. Daeth i'r casgliad bod y BBC ar y trywydd cywir i ragori ar ei darged effeithlonrwydd tra'n cynnal ei berfformiad cyffredinol o ran mesurau cynulleidfaoedd. Felly roedd y rhaglen yn darparu gwerth am arian o ystyried ei hamcanion. Mae'r BBC bellach yn rhoi cyfres o fesurau ar waith i ymdrin â chasgliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol na allai'r BBC ddangos pa un a oedd yr holl arbedion yn arbedion gwirioneddol. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r BBC adeiladu ar elfennau llwyddiannus ei raglen effeithlonrwydd ac atgyfnerthu ei ddull o dargedu arbedion drwy greu diwylliant lle y caiff cost ei herio'n barhaus.

#### Cost swyddogaethau cymorth

Yn yr arolwg hwn, canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod y BBC wedi lleihau costau'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau cymorth yn ystod y pum mlynedd diwethaf a daeth i'r casgliad bod dull cyfredol y BBC o herio cost ei swyddogaethau cymorth yn gymharol effeithiol o ran gwella gwerth am arian. Argymhellodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol y dylai'r BBC ariannu ei wasanaethau cymorth yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyson a thrwyadl o'r hyn y dylai'r gwasanaethau hynny ei ddarparu i'r BBC ac mae'r BBC bellach yn gweithredu'r argymhelliad hwnnw.

### Strategaeth fasnachol BBC Worldwide

Mae BBC Worldwide yn manteisio ar werth eiddo deallusol y BBC ar ran talwyr ffi'r drwydded. Drwy ddifidendau a buddsoddiad uniongyrchol mewn rhaglenni, mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at y ffordd y caiff y gwasanaethau cyhoeddus eu hariannu. Wrth gymeradwyo'r strategaeth fasnachol, rhydd yr Ymddiriedolaeth baramedrau clir i BBC Worldwide weithredu o'u mewn er mwyn sicrhau bod ei weithgareddau yn gydnaws â chylch gwaith cyhoeddus y BBC. Yn arbennig, rydym yn ceisio sicrhau nad yw ei weithgareddau masnachol yn niweidio brand nac enw da'r BBC, gartref na thramor. Nod y strategaeth yw sicrhau bod BBC Worldwide yn cyflawni difidendau cynyddol a chynaliadwy sy'n ategu model ariannu cyffredinol y BBC.

Cynyddodd cyfraniad BBC Worldwide i gyllid y BBC unwaith eto yn 2011/12 – i fyny 18.7% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, i £216miliwn.

> Mae'r strategaeth fasnachol yn anelu at sicrhau bod BBC Worldwide yn cyflawni difidendau cynyddol a chynaliadwy sy'n cefnogi model ariannu cyffredinol y BBC

## Cyflog y Bwrdd Gweithredol

Rydym yn cydnabod bod ein dynesiad at gyflogau yn y BBC – yn enwedig y swm a gaiff ei dalu i uwch swyddogion gweithredol – yn chwarae rhan yn y broses o sicrhau gwerth am arian. Rydym o'r farn bod angen i gyflogau cyfarwyddwyr gweithredol gydbwyso'r angen i ddenu pobl o galibr uchel i reoli'r BBC â'r angen i sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Eleni, cyflawnodd y Bwrdd Gweithredol y targed y cytunwyd arno yn 2009 i leihau bil cyflogau uwch reolwyr y BBC 25%, ac i leihau nifer yr uwch reolwyr sy'n gweithio yn is-adrannau gwasanaeth cyhoeddus y sefydliad.

Ym mis Gorffennaf 2011, gwnaethom ddiweddaru ein strategaeth cyflogau uwch reolwyr er mwyn sicrhau na fyddai arferion cydnabyddiaeth y BBC yn tanseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd a wasanaethir gennym.

Ymhlith y mentrau newydd a gyhoeddwyd eleni mae:

- lleihau nifer yr uwch reolwyr i tua 1% o gyfanswm y staff
- diddymu bonysau pob cyfarwyddwr gweithredol (lle roeddent eisoes wedi'u rhewi)
- gwella tegwch polisi cydnabyddiaeth y BBC, drwy gael gwared ar yr hawl i yswiriant iechyd preifat i uwch reolwyr newydd
- cyhoeddi mwy o wybodaeth am gyflog uwch reolwyr

Gwnaethom hefyd gytuno y byddem yn cyhoeddi 'lluosrif cyflog' yn yr Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn er mwyn i'r cyhoedd allu gweld yn union sut mae cyflog y rheini yn swyddi uchaf y BBC yn cymharu â gweddill y sefydliad. Byddwn yn gwneud hyn drwy gymharu cyflog canolrif aelodau'r Bwrdd Gweithredol â chyflog canolrif y BBC yn gyffredinol. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r swm a delir i uwch swyddogion y BBC i dalwyr ffi'r drwydded, ac yn galluogi'r cyhoedd i gymharu'r BBC â sefydliadau eraill sy'n dewis cyhoeddi'r wybodaeth hon. Rydym yn defnyddio'r lluosrif cyflog hwn er mwyn rhoi cap ar y swm a gaiff ei dalu i gyfarwyddwyr gweithredol.

Cyhoeddir y lluosrif cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn Rhan Dau yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac rydym wedi cyhoeddi'r lluosrif ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ein hadroddiad yn y golofn nesaf.

## Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol 2011/12

Nodir manylion y swm a dalwyd i aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer 2011/12 yn adroddiad Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

### Y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, Mark Thompson, yw prif weithredwr a phrif olygydd y sefydliad; mae'n cadeirio Bwrdd Gweithredol y BBC.

Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol a phensiwn, yn unol â thelerau safonol y BBC. Gan fod y cynllun bonws ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol wedi'i ddiddymu am gyfnod amhenodol, nid yw cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol bellach yn cynnwys elfen sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cael car a gyrrwr y mae'n eu defnyddio ar gyfer teithiau busnes yn Llundain yn bennaf; nid oes ganddo hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

Yn 2011/12, gostyngwyd cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r gostyngiad hwn yn deillio o'i benderfyniad i roi'r gorau i atodiad pensiwn arian parod a dalwyd yn flaenorol, a'i benderfyniad i dderbyn gostyngiad gwirfoddol yn ei gyflog sylfaenol.

Yn 2011, gwnaethom gytuno i gyhoeddi lluosrif enillion canolrif y BBC ac enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol. I'r BBC yn y flwyddyn 2011/12, 16.5 oedd y lluosrif hwn (16.8 yn 2010/11). Cyfrifir y ffigur hwn gan ddefnyddio cyflog pendant y Cyfarwyddwr Cyffredinol, heb ystyried y cyflog a ildiwyd yn wirfoddol ar gyfer 2011/12.

Ym mis Mawrth 2012, nododd Mark Thompson y byddai'n rhoi'r gorau i'w swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol; bydd yn gadael y BBC ag etifeddiaeth sylweddol o gyflawniadau a'n dymuniadau gorau iddo ar gyfer y dyfodol. Rydym yn recriwtio olynydd ar gyfer y rôl hon.

### Cyfarwyddwyr anweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr anweithredol yn cael ffi a bennir gan yr Ymddiriedolaeth. Pennwyd lefelau ffioedd gan gyfeirio at gyfraddau a delir gan gorfforaethau eraill yn y DU, ond ar lefel sy'n golygu nad yw'r cyfarwyddwyr anweithredol yn ariannol ddibynnol ar y BBC.

Mae pob cyfarwyddwr anweithredol yn cael ffi sylfaenol; mae cadeirydd pob pwyllgor yn cael ffi ychwanegol am ymgymryd â'r dasg honno; ac mae'r uwch gyfarwyddwr anweithredol hefyd yn cael ffi ychwanegol. Ad-delir treuliau cyfarwyddwyr anweithredol a chaiff unrhyw dreth sy'n deillio o'r treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC.

Adolygwyd y ffioedd ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2010, gan benderfynu cadw'r ffioedd ar y lefel bresennol; byddwn yn adolygu'r ffioedd hyn nesaf ym mis Rhagfyr 2013.

Yn 2011/12, cymerodd y cyfarwyddwyr anweithredol ostyngiad gwirfoddol yn eu ffioedd a oedd yn cyfateb i fis o gyflog.

### Cyfarwyddwyr gweithredol

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn pennu'r pecyn cydnabyddiaeth ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol unigol, o fewn strategaeth y cytunir arni gan yr Ymddiriedolaeth. Bob blwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried adroddiad ffurfiol sy'n rhoi sicrwydd i ni bod ein strategaeth yn cael ei dilyn. Rydym wedi ystyried yr adroddiad ar gyfer 2011/12 ac rydym yn fodlon â'r dull gweithredu sydd ar waith. Ceir rhagor o wybodaeth am becynnau cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn Rhan Dau.

# PWRPASAU CYHOEDDUS

## Dylai'r chwe phwrpas cyhoeddus, sy'n seiliedig ar genhadaeth y BBC i hysbysu, addysgu a diddanu, ac a nodir yn y Siarter, fod yn sail i bopeth a wna'r BBC. Eleni, parhaodd y BBC i gyflawni'r rhan fwyaf o'i bwrpasau yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur i ba raddau y mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflawni'r pwrpasau, a nodir ar y dudalen hon, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau, gan gynnwys ein Harolwg Cylch Gwaith Pwrpas blynyddol. Mae'r arolwg hwn yn gofyn am farn cynulleidfaoedd ar bwysigrwydd pob mater ac ar berfformiad y BBC.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg eleni fod argraff pobl o'r BBC yn parhau'n gyffredinol gadarnhaol, gyda mwy nag wyth o bob deg o oedolion yn gymeradwywyr 'uchel' neu 'ganolig'. Fel yn y gorffennol, roedd canran uchel iawn o oedolion yn cytuno y byddent yn gweld eisiau'r BBC pe na bai yno. Roedd disgwyliadau pobl o'r BBC yn parhau'n uchel iawn ar draws yr holl bwrpasau cyhoeddus a pharhaodd y BBC i gyflawni'r rhan fwyaf o'i bwrpasau cyhoeddus yn unol â'r disgwyliadau hyn. Mae pwysigrwydd y pwrpas cyfathrebu newydd wedi cynyddu ac mae perfformiad y BBC wedi bodloni disgwyliadau. Fodd bynnag, mae natur nodedig a phortread yn parhau'n feysydd i'w gwella o fewn y pwrpasau creadigrwydd a chynrychiolaeth.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu'r cylchoedd gwaith pwrpas, sy'n diffinio blaenoriaethau o fewn pob pwrpas i'r Bwrdd Gweithredol a sut y cânt eu mesur er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol.

### Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil

Parhaodd y pwrpas hwn i fod yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd ac, ar y cyfan, mae eu disgwyliadau yn cael eu bodloni. Parhaodd cynulleidfaoedd i gredu bod y BBC yn darparu newyddion a dadansoddiadau annibynnol, cywir a diduedd a'i fod yn rhoi mynediad uniongyrchol i bobl i'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Fodd bynnag, mae bwlch o hyd o ran 'deall gwleidyddiaeth yn fy ngwlad/rhanbarth'.

### Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau

Erys y maes hwn yn achos pryder. Eleni, ehangodd y bwlch rhwng disgwyliadau cynulleidfaoedd a pherfformiad y BBC, yn arbennig o ran y portread o'r gwledydd a'r rhanbarthau, er bod sgoriau ansawdd yn parhau'n uchel. Roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhai o ranbarthau Lloegr o'r farn y gallai'r BBC wneud yn well. Rhaid i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r pwrpas hwn ac mae'n gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n comisiynu ac yn cynhyrchu cynnwys er mwyn gwneud hyn mewn ffordd fwy effeithiol.

### Hyrwyddo addysg a dysgu

Roedd cynulleidfaoedd yn parhau o'r farn bod cyfraniad y BBC at addysg yn un o'i gryfderau allweddol, ac roedd disgwyliadau yn y maes hwn yn parhau'n uchel. Roedd rhieni â phlant o dan 18 oed yn parhau o'r farn y gallai'r BBC wneud mwy i helpu plant a phobl ifanc yn eu harddegau o ran yr hyn y maent yn ei ddysgu yn yr ysgol a'r coleg.

### Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU

Parhaodd y BBC i berfformio'n gadarn yn hyn o beth. Cynyddodd y sgôr perfformiad ar gyfer helpu pobl i ddeall newyddion a digwyddiadau rhyngwladol ar draws pob grŵp cynulleidfa eleni. Cyd-destun y cynnydd hwn oedd agenda newyddion rhyngwladol sylweddol, gan gynnwys y Gwanwyn Arabaidd a'r daeargryn yn Siapan.

### Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol

Ystyrir bod darparu cynnwys o ansawdd uchel sy'n diddanu yn un o gryfderau'r BBC. Roedd cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r rhaglenni a'r gwasanaethau yn fawr ac yn disgwyl i'r BBC osod meincnod ar gyfer ansawdd. Fodd bynnag, roedd cynulleidfaoedd yn pryderu o hyd am y ddarpariaeth o raglenni gwreiddiol a newydd ac o'r farn y gallai'r BBC gymryd mwy o risgiau creadigol. Gwyddom o'r gwaith ymchwil ansoddol a wnaed gennym eleni fod hyn yn broblem benodol ym maes teledu, felly mae gwella natur nodedig yn parhau yn amcan allweddol i'r BBC.

### Helpu i ddarparu buddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd

Erbyn diwedd 2011, roedd y broses o newid i deledu digidol wedi cael ei chynnal yn llwyddiannus mewn bron i ddwy ran o dair o gartrefi yn y DU. Parhaodd lefelau gwrando digidol i gynyddu hefyd. Cafodd y pwrpas digidol sgôr uwch o ran pwysigrwydd a pherfformiad yn arolwg eleni ac roedd y sgoriau ar eu huchaf ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Bydd prosiectau arloesol sy'n mynd rhagddynt, megis YouView, a gaiff ei lansio yn 2012, yn parhau i wella hygyrchedd i bob cynulleidfa.

# PERFFORMIAD GWASANAETHAU




**Eleni gwnaethom gwblhau ein cylch cyntaf o arolygon o holl wasanaethau domestig y BBC. Mae'r BBC yn parhau i gyrraedd cynulleidfa eang sy'n gwerthfawrogi ei gynnwys ansawdd uchel. Credwn y gall y BBC wella natur nodedig ei raglenni ymhellach.**

Cyflwynwyr BBC Radio Cornwall David White a Debbie McCrory ar Daith Gyfnewid y Ffagl yn Falmouth. Canfu arolwg gan yr Ymddiriedolaeth bod gwrandawyr yn gwerthfawrogi Radio Lleol y BBC yn fawr.

## Teledu

Perfformiodd Teledu'r BBC yn gryf iawn unwaith eto eleni gyda lefelau gwylio a chanfyddiadau gwylwyr o ansawdd yn parhau'n uchel iawn. Gwnaethom gynnal gwaith ymchwil i'r gynulleidfa a helpodd i egluro sut mae'r defnydd o wasanaethau dal-i-fyny ac ar-alw yn golygu, er bod y rhan fwyaf o bobl yn gwylio'r teledu yn fyw, bod pobl yn mwynhau'r teledu y maent yn ei wylio fwy byth.

Yn ystod y 18 mis ers i ni gwblhau ein harolygon o BBC One, BBC Two a BBC Four, gwnaethom ddilyn hynt y camau gweithredu a bennwyd gennym i'r Bwrdd Gweithredol. Er nad oes amheuaeth gennym fod ansawdd yr allbwn yn uchel iawn yn gyffredinol, rydym yn dal i herio'r Bwrdd Gweithredol i gymryd mwy o risgiau creadigol ac i gynnig rhaglenni mwy nodedig, yn arbennig yn ystod oriau brig pan fo nifer y gwylwyr uchaf. Mae ein her yn seiliedig ar ein dyletswydd i fonitro perfformiad y BBC wrth hyrwyddo ei bwrpas cyhoeddus o ran diwylliant a chreadigrwydd ac, yn benodol, ar y ffaith bod gan y cyhoedd ddisgwyliadau uchel o ran cynnwys 'ffres a newydd', y gallai'r BBC wneud mwy i'w bodloni. Rydym hefyd yn benderfynol y dylai'r BBC ddefnyddio sicrwydd arian ffi'r drwydded i gymryd risgiau creadigol na fyddai darlledwr masnachol o bosibl fyth yn eu hystyried.

### BBC One

BBC One yw'r sianel a gaiff ei gwylio fwyaf gan y genedl o hyd ac mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd ei rhaglenni yn parhau'n uchel iawn.

Gwnaethom barhau i asesu yn erbyn y pwyntiau a godwyd gennym yn yr arolwg o'r gwasanaeth. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ystod y rhaglennu a graddau'r uchelgais creadigol yn ystod oriau brig. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *Sherlock*, a oedd yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd a beirniaid fel ei gilydd. Rydym yn parhau i herio BBC One i gynnig mwy i'w gwylwyr o ran syniadau ffres a newydd ac yn cefnogi uchelgais y rheolwr i sicrhau bod BBC One yn fwy cyfredol a sicrhau bod gan faterion cyfoes difrifol gartref yn ystod oriau brig.

### BBC Two

Rydym yn hyderus bod BBC Two yn llwyddo i ddod yn fwy nodedig fel yr anogwyd gan ein harolwg. Mae ei chyfraddau rhaglenni ar gyfer 'ansawdd uchel' a 'ffres a newydd' yn dystiolaeth bod gwylwyr yn gwerthfawrogi hyn.

Mae'r penderfyniad i ddychwelyd drama wreiddiol i BBC Two wedi helpu i ehangu portffolio drama'r BBC ac roedd yr amrediad rhaglennu ffeithiol, o hanes i wyddoniaeth a'r celfyddydau, ynghyd â rhai rhaglenni materion cyfoes nodedig, hefyd yn gryfderau gwirioneddol eleni.

### Yn ystod y dydd ar BBC One a BBC Two

Yn ein harolygon gwasanaeth o BBC One a BBC Two gwnaethom gytuno gyda'r Bwrdd Gweithredol bod angen gweddnewid rhaglennu yn ystod y dydd. Mae'n falch gennym weld bod y sgoriau ansawdd yn ystod y dydd wedi cynyddu eleni. Cynyddodd amrediad ac amrywiaeth rhaglennu, gyda llwyddiannau nodedig ym maes drama wreiddiol, newyddiadraeth defnyddwyr a rhaglenni materion cyfoes.

# PERFFORMIAD GWASANAETHAU
## PARHAD



Ayesha Dharker a Sanjeev Bhaskar yn y ddrama a ddarlledwyd ar BBC One yn ystod y dydd, *The Indian Doctor.*

### BBC Three a BBC Four
Cafodd BBC Three flwyddyn gref gyda chyrhaeddiad uwch ymhlith ei chynulleidfa darged a chanfyddiadau uwch o ran ansawdd.

Yn dilyn ein harolwg o BBC Four, gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Gweithredol wella effaith y sianel, yn arbennig ym maes y celfyddydau a diwylliant. Felly roedd yn falch gennym weld eleni bod gwylwyr yn llawer mwy cyfarwydd â'r sianel a'i rôl. Perfformiodd BBC Four yn dda iawn gyda'i rhaglenni gwreiddiol a chyda dramâu a gaffaelwyd o dramor.

### BBC ALBA
Y llynedd gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau ar sianel deledu Gaeleg y BBC, BBC ALBA, a ddaeth i'r casgliad ei bod yn perfformio'n dda a bod siaradwyr Gaeleg rhugl a dysgwyr Gaeleg yn ei gwerthfawrogi. Lansiodd y gwasanaeth ar Freeview a chebl yn 2011, gan arwain at gynnydd mawr yn ei gynulleidfa.

Cynyddodd canfyddiadau cynulleidfaoedd o ansawdd o lefel a oedd eisoes yn uchel

### CBBC a CBeebies
Parhaodd CBeebies i berfformio'n eithriadol o dda. Dyma'r sianel i blant a gaiff ei gwylio fwyaf o hyd ymhlith plant chwech oed neu'n iau, gyda thua 49% yn ei gwylio bob wythnos, ac mae eu rhieni yn gwerthfawrogi'r sianel yn fawr.

Cafodd CBBC hefyd flwyddyn gref iawn unwaith eto. Cynyddodd cyrhaeddiad ymhlith plant 6–12 oed ychydig i 39%, a pharhaodd canfyddiadau rhieni o ansawdd y sianel yn uchel. Mewn cartrefi cebl a lloeren, lle mae CBBC yn cystadlu gyda sianelau nad ydynt ar gael ar Freeview, cynyddodd cyrhaeddiad hefyd i 31%.

Gwnaethom gytuno gyda'r Bwrdd Gweithredol, unwaith y bydd y broses o newid i ddigidol wedi'i chwblhau, ac y bydd gan bob cartref fynediad i CBBC a CBeebies, na fydd y BBC bellach yn darlledu rhaglenni i blant ar BBC One a BBC Two. Byddwn yn adolygu allbwn y BBC i blant unwaith eto yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i ni ddechrau ar ein hail gylch o arolygon gwasanaeth bob pum mlynedd.

### Radio
Mae naw allan o ddeg o oedolion yn gwrando ar y radio bob wythnos ac mae'r oriau gwrando yn parhau'n gymharol sefydlog, yn dilyn rhai blynyddoedd lle y cafwyd gostyngiad.

Cafodd radio'r BBC flwyddyn gref iawn arall gyda sgoriau ansawdd cyffredinol uwch. Cynyddodd gwrandawyr holl orsafoedd digidol y BBC eleni. Bellach mae 29% o holl wrandawyr radio'r BBC yn gwneud hynny ar lwyfannau digidol.

### BBC Radio 1
Mae gan BBC Radio 1 gylch gwaith i wasanaethu cynulleidfa ifanc ac mae'n chwarae rhan bwysig i'r BBC yn hyn o beth, gan gyflwyno newyddion ac allbwn cyhoeddus arall i'r rheini na fyddai o bosibl yn ei glywed fel arall. Fodd bynnag, mae'r cylch gwaith hwn yn heriol gan fod lefelau gwrando ar y radio yn parhau'n is ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc.

Erys cyrhaeddiad BBC Radio 1 yn uchel iawn ymhlith ei chynulleidfa darged, sef pobl ifanc 15–29 oed, gyda thua 42% ohonynt yn gwrando bob wythnos. Fodd bynnag, oherwydd bod nifer o'i gwrandawyr y tu allan i'r grŵp oedran hwnnw, canolrif oedran gwrandawyr

BBC Radio 1 yw 30. Bu hyn yn gymharol sefydlog ers ein harolwg o'r gwasanaeth yn 2009, gan ystyried newid yn y dull mesur.

Gwnaethom barhau i bwyso ar y Bwrdd Gweithredol am dystiolaeth bod yr orsaf yn canolbwyntio ar wasanaethu cynulleidfa ifanc ac roeddem yn falch o weld newidiadau i'r amserlen a datblygiadau ar-lein wedi'u cynllunio i gynyddu perthnasedd ac apêl i bobl ifanc. Rydym yn disgwyl gweld mwy o ffocws ar ei gwrandawyr ifancach a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad.

### BBC Radio 2

BBC Radio 2 yw gorsaf radio fwyaf poblogaidd y genedl o hyd. Yn ein harolwg o'r gwasanaeth a gyhoeddwyd yn 2010, gwnaethom nifer o argymhellion i sicrhau bod yr orsaf yn fwy nodedig, yn arbennig yn ystod y dydd, a gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau bod yr orsaf yn parhau i ganolbwyntio ar gynulleidfa hŷn. Rydym yn fodlon ar y cynnydd eleni ond byddwn yn parhau i asesu hyn.

### BBC Radio 3

Canfu ein harolwg o'r gwasanaeth fod BBC Radio 3 yn gwneud cyfraniad sylweddol wrth helpu'r BBC i gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus ond ei bod yn wynebu her o ran ymddangos yn hygyrch i wrandawyr newydd. Gwnaeth y Bwrdd Gweithredol rai newidiadau bach i raglenni'r bore wedi'u cynllunio i wella hygyrchedd yr orsaf. Mae'r ffigurau gwrando wedi parhau'n gymharol sefydlog ond cynyddodd sgoriau ansawdd, gyda'r lefelau gwerthfawrogiad uchaf o blith holl orsafoedd radio rhwydwaith y BBC, er y bu rhywfaint o feirniadaeth allanol i'r newidiadau. Rhaid i BBC Radio 3 gynnal ei hamrywiaeth nodedig o gerddoriaeth, ond rydym yn cefnogi ei hymdrechion i wneud newidiadau o bryd i'w gilydd o ran sut y caiff y gerddoriaeth honno ei chyflwyno i gynulleidfaoedd.

### BBC Radio 4

Cafodd BBC Radio 4 flwyddyn ardderchog, gydag amrywiaeth o raglennu yn sefyll allan i wrandawyr. Mae'n cyrraedd 10 miliwn o bobl bob wythnos ac roedd canfyddiadau o ran ansawdd a natur nodedig yn uchel iawn. Yn ein harolwg o'r gwasanaeth, gwnaethom gymeradwyo strategaeth sy'n anelu at ehangu apêl yr orsaf i gynulleidfaoedd mwy amrywiol heb roi ansawdd ei rhaglenni yn y fantol. Roeddem yn falch o weld rhai arwyddion cychwynnol bod y gostyngiad hirdymor o ran nifer y gwrandawyr 35–54 oed yn cael ei wrthdroi, gan fod y gynulleidfa hon yn bwysig iawn i iechyd hirdymor yr orsaf. Cynhaliodd y Bwrdd Gweithredol hefyd fentrau i gynyddu'r apêl i bobl o wahanol rannau o'r DU, ac o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn y meysydd hyn, ond byddwn yn parhau i annog y Bwrdd Gweithredol i ymdrin â'r her hon.

### Radio digidol y BBC: BBC 1Xtra, BBC 6Music a BBC Radio 4 Extra

Cafodd yr holl orsafoedd digidol yn unig flwyddyn lwyddiannus gyda chynnydd mewn cyrhaeddiad ar gyfer pob gorsaf, ynghyd â lefel gwerthfawrogiad uchel. BBC Radio 4 Extra oedd gorsaf ddigidol y BBC y gwrandawyd arni fwyaf.

### BBC Radio 5 Live a BBC 5 Live Sports Extra

Cwblhawyd arolwg gennym o'r gwasanaethau hyn eleni. Perfformiodd y ddau wasanaeth yn dda ac mae eu cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi eu cymysgedd o ragleni newyddion a chwaraeon hygyrch. Daethom i'r casgliad bod yn rhaid i BBC Radio 5 Live gynyddu ei ffocws ar newyddion a gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau bod amrediad o chwaraeon, gan gynnwys y rheini o ddiddordeb lleiafrifol, yn cael sylw ochr yn ochr â phêl-droed.

### BBC Asian Network

Eleni gwnaethom hefyd gwblhau ein harolwg o'r BBC Asian Network. Caiff yr orsaf ei gwerthfawrogi am ei hallbwn cerddoriaeth a'i rhaglennu newyddion a llafar gwreiddiol gan y gymuned Asiaidd Brydeinig a wasanaethir ganddi a chaiff ei chydnabod am ei harlwy nodedig o gymharu â gorsafoedd radio Asiaidd eraill. Yr her i'r orsaf dros y blynyddoedd nesaf fydd cadw ei natur nodedig a pharhau i wella ansawdd tra'n cyrraedd rhai gwrandawyr newydd a lleihau ei chostau.

### Radio'r Cenhedloedd

Eleni gwnaethom gwblhau ein harolygon o orsafoedd radio cenedlaethol y BBC (BBC Radio Wales, BBC Radio Cymru, BBC Radio Scotland, BBC Radio Ulster/Foyle a'r orsaf Gaeleg BBC Radio nan Gàidheal).


**Cafodd BBC Radio 4 flwyddyn ardderchog, gydag amrywiaeth o raglennu yn sefyll allan i wrandawyr**

## Amcan strategol

## GWELLA NATUR NODEDIG AC ANSAWDD ALLBWN Y BBC

Eleni gwnaeth y BBC gynnydd yn erbyn yr amcan hwn ond bydd yr Ymddiriedolaeth yn chwilio am dystiolaeth bellach o natur nodedig yn ystod y flwyddyn nesaf.

### Gwerthfawrogiad y gynulleidfa



Cynyddodd gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer y rhan fwyaf o allbwn y BBC yn 2011/12. Cynyddodd sgôr gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer teledu i 83 o 82 yn 2010/11. Cynyddodd sgôr gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer radio i 81 o 80 yn 2010/11 (Arolwg Pulse y BBC). Gostyngodd y sgôr ar-lein i 77 o 80 yn 2010/11 (Arolwg Ansawdd BBC Online).

### Canfyddiadau o 'ffres a newydd'



Cynyddodd cyfran y gynulleidfa sy'n cytuno bod rhaglenni teledu'r BBC yn 'ffres a newydd' i 70% o 68% yn 2010/11 (Arolwg BBC Pulse).

# PERFFORMIAD GWASANAETH
## PARHAD




Symudol yw'r llwyfan sy'n tyfu gyflymaf ar gyfer BBC News, gyda nifer aruthrol o bobl yn defnyddio gwasanaethau drwy ffonau deallus a thabledi.

Mae gwasanaeth Radio pob Gwlad yn cynnig rhywbeth i wrandawyr na allant ei gael unrhyw le arall

Cafwyd gennym bod y gorsafoedd yn gweithredu o fewn amgylchedd diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol gwahanol iawn a bod nifer y gwrandawyr a chanfyddiadau'r gynulleidfa o ansawdd yn amrywio hefyd. Fodd bynnag, mae pob gwasanaeth yn cynnig cynnwys nodedig i dalwyr ffi'r drwydded. Gwnaethom herio'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer pob gorsaf mewn ymateb i adborth o'n hymgynghoriad cyhoeddus a'n gwaith ymchwil, a gwnaethom gytuno ar nifer o gamau gweithredu gan gynnwys camau diogelu i warchod agweddau mwyaf nodedig pob gorsaf.

### Radio Lleol y BBC

Gwnaethom adolygu Radio Lleol y BBC eleni. Mae ei wrandawyr yn gwerthfawrogi'r cynnwys nodedig, gan gynnwys newyddion lleol, trafodaethau cymunedol a darllediadau chwaraeon. Ochr yn ochr â'n gwaith craffu ar strategaeth ehangach y BBC, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y Bwrdd Gweithredol ar gyfer Radio Lleol y BBC. Cafwyd gennym bod gwrthwynebiad cryf i'r cynlluniau a pryder y byddai'r toriadau yn cael effaith andwyol ar newyddiaduraeth leol. Ymatebodd y Bwrdd Gweithredol gan gyflwyno cyfres ddiwygiedig o gynigion yr ydym wedi'u cymeradwyo erbyn hyn. Amlygodd ein harolwg yr agweddau ar Radio Lleol y BBC a gaiff eu gwerthfawrogi gan wrandawyr a byddwn yn monitro effaith y newidiadau arfaethedig er mwyn sicrhau y caiff yr agweddau hyn eu diogelu.

### BBC Ar-lein

Mae tua 20 miliwn o bobl yn defnyddio BBC Ar-lein bob wythnos, gan olygu mai dyma un o wasanaethau'r BBC a gaiff ei ddefnyddio fwyaf. Er bod nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cynyddu ychydig, mae pobl yn defnyddio BBC Ar-lein ar fwy o ddyfeisiau – mae dros chwarter y defnydd bellach drwy ffonau symudol a thabledi.

Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau blwyddyn o strategaeth sydd, ar gyllideb is, yn anelu at symleiddio dulliau llywio a gwella ffocws. Wrth i safleoedd gael eu hail-lansio, effeithiwyd ar ganfyddiadau defnyddwyr o ansawdd rhai ohonynt. Credwn ei bod yn bwysig fod defnyddwyr o'r farn bod arlwy o ansawdd uchel ar BBC Ar-lein a byddwn yn ystyried yr hyn y maent yn disgwyl ei gael gan y gwasanaeth pan fyddwn yn ei adolygu yn 2012.

### BBC Red Button

Perfformiodd y gwasanaeth yn dda eleni, gyda sgoriau ansawdd yn gwella ychydig a chyrhaeddiad wythnosol yn parhau'n sefydlog ar lefel o tua 31%. Yn unol â chasgliad ein harolwg yn 2010 a strategaeth ehangach y BBC, bydd rhai gostyngiadau i'r gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## Newyddion a materion cyfoes

Mae BBC News yn wasanaeth hanfodol i dalwyr ffi'r drwydded a dyma'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf yn y DU o bell ffordd. Mae wedi cynnal ei gyrhaeddiad wythnosol uchel iawn o fwy na 80%. O ganlyniad i'r agenda newyddion gref eleni, parhaodd cyrhaeddiad newyddion y BBC ar y teledu yn gryf, gyda 69% yn gwylio bob wythnos, er gwaethaf y llu o ffynonellau newyddion eraill sydd ar gael i bobl. Roedd cyrhaeddiad newyddion a materion cyfoes ar radio'r BBC hefyd yn gryf.

Eleni gwnaethom gyhoeddi ein harolwg o sianelau BBC News a BBC Parliament. Cafwyd gennym bod gan y ddwy eu cynulleidfaoedd uchaf erioed a bod y cynulleidfaoedd hynny yn dal i gynyddu. Mae cynulleidfaoedd o'r farn bod sianel BBC News o ansawdd uchel ac yn nodedig. Mae cynulleidfaoedd BBC Parliament yn canmol ei darllediadau byw heb eu cyfryngu o sefydliadau gwleidyddol ac hefyd yn gwerthfawrogi ei hymrwymiad i ddarlledu o'r gwledydd datganoledig.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, bu gostyngiad graddol yn nifer y bobl sy'n gwylio rhaglenni materion cyfoes ar y teledu. Serch hynny, mae amrywiaeth lawn o faterion cyfoes effaith uchel yn rhan hanfodol o arlwy'r BBC ar y teledu a'r radio, hyd yn oed pan fo cyllidebau o dan bwysau. Yn benodol, gan adolygu costau a chwmpas y BBC eleni, daethom i'r casgliad y dylai'r BBC gynnal swm y rhaglenni materion cyfoes ar BBC One a BBC Two.

### Chwaraeon

Perfformiodd Chwaraeon y BBC yn gadarn ar y teledu, radio ac ar-lein. Roedd cyrhaeddiad yn is eleni am fod llai o ddigwyddiadau chwaraeon mawr, ond roedd cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi Chwaraeon y BBC yn fawr ac mae cyfran y BBC o wylwyr chwaraeon yn sylweddol uwch na'i gyfran o'r allbwn.

### BBC World Service

Cyrhaeddodd BBC World Service 180 miliwn o oedolion ledled y byd eleni, sef cynnydd o 14 miliwn o gymharu â'r llynedd. Er bod nifer y bobl sy'n gwrando ar wasanaethau radio tonfedd fer wedi parhau i ostwng, cafwyd twf cadarn o ran cyrhaeddiad teledu a gwyliodd 27 miliwn o bobl wasanaethau teledu nad oeddent yn Saesneg BBC World Service bob wythnos (cynnydd o 9 miliwn o gymharu â'r llynedd). Roedd cyfanswm y defnydd o wefan BBC World Service yn gymharol sefydlog, a pharhaodd mynediad ar-lein drwy ffonau symudol i ddangos twf cadarn. Yn gyffredinol, parhaodd y gwasanaeth i ddenu sgoriau uchel gan ei gynulleidfaoedd am wrthrychedd, perthnasedd a gwerth.

Mae Radio BBC World Service yn y DU ar gael ar radio DAB, teledu digidol ac ar-lein. Caiff hefyd ei ddarlledu dros nos ar BBC Radio 4. Eleni, gwrandawodd tua 1.5 miliwn o bobl yn y DU bob wythnos.

Yn unol â setliad ffi'r drwydded y cytunwyd arno yn 2010, o 2014/15 ymlaen, caiff BBC World Service ei ariannu gan ffi'r drwydded. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwasanaeth fel rhan bwysig o gylch gwaith y BBC i wasanaethu cynulleidfaoedd byd-eang.



Felicity Evans yn cyflwyno sioe frecwast Radio Wales, *Good Morning Wales*. Mae BBC Radio Wales, ynghyd â gorsafoedd radio cenedlaethol eraill, yn cynnig gwasanaeth nodedig i wrandawyr.

**BBC News yw'r ffynhonnell yr ymddiriedir ynddi fwyaf ar gyfer newyddion yn y DU o hyd**

# GWASANAETHU POB CYNULLEIDFA




**Mae'r ffaith bod pawb yn talu ffi'r drwydded yn golygu bod angen i'r BBC adlewyrchu'r amrywiaeth ymhlith talwyr ffi'r drwydded, o ran ei raglenni a'i weithlu. Mae hefyd yn golygu y bydd sicrhau bod gwasanaethau'r BBC ar gael am ddim i'w defnyddio i bawb ac mewn ffordd sy'n gyfleus iddynt bob amser yn flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth.**

Hafan iPlayer yr Xbox. Mae ein polisi syndicetio diwygiedig yn galluogi mynediad i gynnwys y BBC drwy amrywiaeth eang o lwyfannau a dyfeisiau.

Cyflwyno gwasanaethau'r BBC i'r boblogaeth gyfan; sicrhau bod rhywbeth i bawb; cynrychioli'r DU gyfan yn ei allbwn – dyma'r egwyddorion rydym wedi'u nodi ar gyfer gwasanaethu holl gynulleidfaoedd y BBC.

## Portreadu ein cynulleidfaoedd

Rydym yn monitro drwy ein Harolwg Cylch Gorchwyl y Pwrpasau sut y caiff gwahanol gymunedau a rhannau o'r DU eu portreadu yn rhaglenni'r BBC. Er bod y BBC yn cael sgoriau uchel yn gyffredinol gan gynulleidfaoedd ledled y DU, gwyddom fod y sgoriau hyn yn is ymhellach o Lundain. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gweithio'n galed i ymdrin â'r her hon, ac eleni, cyhoeddodd y BBC ymrwymiadau ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan nodi'n fanylach sut y bydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ymhob gwlad. Cytunodd yr Ymddiriedolaeth â thargedau'r BBC ar gyfer gwariant teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain, ac rydym yn falch bod y BBC wedi gwneud cynnydd da gyda 41% o'r gwariant y tu allan i Lundain yn erbyn targed o 50% erbyn 2016, ac 16.3% yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn erbyn targed o 12% erbyn 2012 (17% erbyn 2016).

**Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd da o ran targedau cynhyrchu y tu allan i Lundain**

## BBC sy'n cynrychioli holl dalwyr ffi'r drwydded

Er mwyn cynrychioli talwyr ffi'r drwydded yn effeithiol, dylai'r BBC ei hun adlewyrchu amrywiaeth y DU. Eleni, cyhoeddodd y Bwrdd Gweithredol *Telling our Story: Equality and diversity at the BBC*. Mae'n egluro sut mae'r BBC yn cyflawni ei amcanion o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn rhoi gwybodaeth am broffil cyflogeion mewn chwe chategori (oedran, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, crefydd/cred a thueddfryd rhywiol). Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y Bwrdd Gweithredol hefyd amcanion cydraddoldeb penodol yn sail i strategaeth amrywiaeth y BBC. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno adroddiad ar ei gynnydd y flwyddyn nesaf.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad *Observations on the BBC Executive's arrangements for promoting equal opportunities in employment,* mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu'r gwaith a wnaed i wella trefniadau'r BBC ar gyfer monitro ei weithlu ac ymgysylltu'n well â staff. Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ganolbwyntio ar sawl maes gan gynnwys nifer y staff anabl a sut y caiff merched eu cynrychioli o fewn graddau uwch.

## Cyflwyno gwasanaethau i holl dalwyr ffi'r drwydded

Mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau bod ei gynnwys ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau sy'n gyfleus ac yn gosteffeithiol. Mewn byd cynyddol rhyng-gysylltiedig, gyda nifer o lwyfannau a dyfeisiau gwahanol, mae cyflwyno cynnwys y BBC o'r lle y caiff ei wneud i'r lle y mae cynulleidfaoedd yn disgwyl cael gafael arno yn dasg fwyfwy cymhleth.

Mae'r cymhlethdod cynyddol hwn yn heriol ar adeg lle y mae'n rhaid i bawb, gan gynnwys y BBC, ddod o hyd i ffyrdd o wneud mwy gyda llai. Pan nodwyd strategaeth y BBC gennym ym mis Rhagfyr 2010, gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol wasanaethu pob cynulleidfa mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau llwybrau hawdd a hygyrch i gynnwys y BBC, gan gynnal llwyfannau o ansawdd uchel sydd am ddim i'w darlledu, ond gan fuddsoddi hefyd mewn technolegau newydd lle mae gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd.

Mae'r BBC yn cyflwyno cynnwys i gynulleidfaoedd mewn dwy ffordd: drwy seilwaith darlledu ac ar-lein llinellol traddodiadol ('dosbarthu') a thrwy sicrhau bod cynnwys ar-alw ar gael i berchenogion llwyfannau eraill a gweithgynhyrchwyr dyfeisiau ('syndicetio'). Mae'r ail yn gynyddol bwysig wrth i bobl newid i fathau newydd o ddyfeisiau, a cheisio cael mynediad i gynnwys y BBC drwy'r dyfeisiau hynny.

### Dosbarthu

Wrth i'r BBC gwblhau'r broses o newid i ddigidol – sef trosi system teledu analog daearol y DU i system ddigidol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno, mewn egwyddor, i rai cynigion i atgyfnerthu gwasanaethau digidol y BBC er mwyn defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon. Bydd y gwasanaeth Red Button yn cael ei leihau'n raddol ar ôl y Gemau Olympaidd, a chaiff sianel BBC HD ei disodli gan un sianel BBC Two manylder uchel. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried cyfranogiad y BBC yn y gyd-fenter YouView a daethom i'r casgliad ei fod yn bodloni'r amodau a nodwyd gennym yn ein cymeradwyaethau 'Canvas' terfynol yn 2010.

O ran radio, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gynlluniau yn 2010 i'r BBC ehangu cwmpas DAB cenedlaethol i 97% o gartrefi'r DU erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol. Ym mis Mehefin 2011, cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gais i lansio gwasanaeth radio DAB dros dro – BBC 5 Live Olympics Extra – i gynnig darllediadau ychwanegol o'r Gemau Olympaidd yn Llundain. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i helpu'r Bwrdd Gweithredol i gynllunio dyfodol cadarn ar gyfer DAB lleol gyda phartneriaid ym maes radio masnachol, y Llywodraeth a'r diwydiant.

Wrth i'r BBC barhau i addasu i'r tirlun cyfryngau a darlledu digidol newydd, mae'n wynebu heriau newydd. Er enghraifft, mae sicrhau bod rhaglenni ar gael dros fand eang (megis drwy iPlayer) yn cynnig buddiannau sylweddol i gynulleidfaoedd ond mae hefyd yn ychwanegu costau newydd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol sicrhau bod y BBC ar flaen y gad o ran datblygiadau technolegol er mwyn sicrhau y gall cynulleidfaoedd gael gafael ar gynnwys y BBC ble bynnag a sut bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny, ond byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau yn y maes hwn ac annog y BBC i ymchwilio i ffyrdd mwy effeithlon byth o ddosbarthu cynnwys i gynulleidfaoedd.

### Syndicetio

Mae polisi syndicetio'r Ymddiriedolaeth yn esbonio sut y dylid cyflwyno cynnwys ar lwyfannau a dyfeisiau eraill. Fe'i pennwyd yn wreiddiol yn 2007 adeg lansio'r iPlayer. Ers hynny, mae tirlun y cyfryngau wedi newid. Er mai darlledu byw traddodiadol drwy'r teledu a'r radio yw'r norm o hyd, mae disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran gallu cael mynediad i gynnwys y BBC pryd bynnag a ble bynnag y maent am ei gael wedi tyfu'n aruthrol – mae'r iPlayer bellach ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau, ac ar gannoedd o ddyfeisiau.

Arweiniodd yr Ymddiriedolaeth y gwaith i ddiweddaru'r polisi, a oedd yn cynnwys cysylltu â'r Bwrdd Gweithredol a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau y cafodd safbwyntiau'r diwydiant a thalwyr ffi'r drwydded eu hystyried. Lansiwyd y polisi diwygiedig ym mis Chwefror 2012. Mae egwyddorion cynulleidfaol yn greiddiol – er enghraifft, y dylai cynnwys fod o ansawdd uchel ac y dylid gallu cael gafael arno am ddim. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth yn anelu at ddod o hyd i un ateb technegol mewn perthynas â syndicetio, credwn mai'r ffordd orau o fodloni'r egwyddorion hyn yw cynnig mynediad uniongyrchol i ddarpar bartneriaid i amrywiaeth lawn cynnwys y BBC, drwy eu llwyfan neu ddyfais, o fewn amgylchedd y BBC. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu cynnyrch BBC safonol, fel yr iPlayer, wedi'i ddarparu dros y rhyngrwyd, er y bydd y polisi hefyd yn galluogi'r BBC i addasu er mwyn diwallu anghenion talwyr ffi'r drwydded yn y dyfodol o ran cyflwyno cynnwys ar-alw ar amrywiaeth eang o lwyfannau a dyfeisiau.

> Y ffordd orau i fodloni ein hegwyddorion syndicetio yw cynnig mynediad uniongyrchol i ddarpar bartneriaid i amrywiaeth lawn cynnwys y BBC, drwy eu llwyfan neu ddyfais, o fewn amgylchedd y BBC

## Amcan strategol

## GWNEUD MWY I WASANAETHU POB CYNULLEIDFA

Eleni gwnaeth y BBC gynnydd da mewn rhai meysydd wrth iddo barhau i weithio tuag at gyflawni'r amcan heriol hwn.

### Cyrhaeddiad gwasanaethau'r BBC



96%

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau'r BBC yn cyrraedd pawb, gyda 96% o'r gynulleidfa yn defnyddio Teledu, Radio neu Ar-lein y BBC bob wythnos.[1]

[1] BBC Cross Media Insight Survey.

### Mynediad i wasanaethau'r BBC



93%

Mae gan dros 93% o'r DU bellach fynediad i radio DAB. Eleni, llwyddwyd i wella cwmpas FM BBC Radio Wales, a lansiwyd BBC ALBA ar Freeview a chebl Virgin Media yn yr Alban.


### Y tu allan i Lundain



41%

Eleni, cynhyrchwyd 41% o'r gwariant teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain, yn erbyn targed o 50% erbyn 2016.

### Cynrychioli'r gwledydd a'r rhanbarthau



47%

Mae cynulleidfaoedd yn dal i deimlo y gallai'r BBC wneud mwy i gynrychioli eu gwlad neu eu rhanbarth. Cred 47% o oedolion yn y DU bod y BBC yn perfformio'n dda o ran cynrychioli eu gwlad neu eu rhanbarth.[2]

[2] Astudiaeth cylch gwaith pwrpas 2011/12.

# SICRHAU SAFONAU GOLYGYDDOL



Jeremy Bowen a Rob Magee yn gohebu ger Misrata, Libya. Eleni gwnaethom adolygu pa mor ddiduedd oedd darllediadau'r BBC o'r 'Gwanwyn Arabaidd'.

**Mae cynnal y safonau golygyddol uchaf yn hollbwysig o ran galluogi pobl i ymddiried yn y BBC, ac felly mae sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau hyn yn un o swyddogaethau pwysicaf yr Ymddiriedolaeth.**

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn darparu sylfaen allweddol ar gyfer cynnal safonau golygyddol uchel ymhob peth a gaiff ei ddarlledu neu ei gynhyrchu gan y BBC. Mae'r Canllawiau hyn yn cwmpasu amrywiaeth o safonau gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â bod yn ddiduedd, niwed a sarhad, cywirdeb, tegwch, preifatrwydd a phlant a phobl ifanc. Mae gan yr Ymddiriedolaeth amryw o ffyrdd i sicrhau bod y BBC yn cyrraedd y safonau hyn, megis gweithredu fel y cyfryngwr terfynol ar gwynion a chynnal arolygon ar fod yn ddiduedd ar bynciau penodol.

## Bod yn ddiduedd

Ym mis Hydref 2011, lansiodd yr Ymddiriedolaeth yr arolwg diweddaraf yn ein cyfres o arolygon ar fod yn ddiduedd o fewn allbwn y BBC, sef digwyddiadau'r 'Gwanwyn Arabaidd'. Arweiniwyd yr arolwg gan Edward Mortimer, cyn Uwch Ddirprwy Lywydd Seminar Byd-eang Salzburg, cyn Gyfarwyddwr Cyfathrebu'r Cenhedloedd Unedig ac arbenigwyr ym maes materion y Dwyrain Canol. Edrychodd ar ddarllediadau rhwydwaith a newyddion y byd y BBC gan ddechrau gyda digwyddiadau yn Tunisia ym mis Rhagfyr 2010 ac, yn dilyn hynny, yn fwyaf nodedig yn yr Aifft, Libya, Bahrain, Syria ac Yemen.

Roedd yr arolwg yn cynnwys adroddiad gan Edward Mortimer; dadansoddiad o gynnwys a gwaith ymchwil i'r gynulleidfa. Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod y darllediadau o'r gyfres hon o ddigwyddiadau ddiduedd ar y cyfan. Fodd bynnag, gallai'r darllediadau fod wedi bod yn fwy cynhwysfawr mewn amrywiol ardaloedd daearyddol ar wahanol adegau; prin oedd y darlledu a gafwyd o rai gwledydd, gellid bod wedi darlledu adroddiadau dilynol mwy cynhwysfawr o wledydd eraill a gellid bod wedi archwilio gwahanol safbwyntiau gwrthbleidiau i'r llywodraethau yn well. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno i greu eitem annibynnol yn y Bwrdd Newyddion ar straeon pwysig o'r fath ac i ystyried yr arweiniad strategol y gall Golygydd y Dwyrain Canol ei gynnig. Bydd y Cyfarwyddwr Newyddion yn adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolaeth yn 2012 ar ei chasgliadau pellach ar benderfyniadau strategol mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Gwnaethom gyhoeddi hefyd fenter newydd ar gyfer cyfres o seminarau mewn perthynas â bod yn ddiduedd i ystyried materion llosg, gan ategu'r arolygon sy'n mynd rhagddynt eisoes yn hyn o beth. Bydd y seminar cyntaf yn ystyried gohebu economaidd.

## Ymdrin â chwynion

Mae proses gwyno effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y BBC yn atebol i dalwyr ffi'r drwydded. Ym mis Gorffennaf 2011, daeth arolwg o drefniadau llywodraethu'r BBC i'r casgliad y dylai'r broses gwyno fod yn gyflymach, yn symlach ac yn haws i'w deall. Felly, eleni gwnaethom adolygu'r broses gwyno, y mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol amdani. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd ar y prif newidiadau a gynigiwyd, a gwaith ymchwil i'r gynulleidfa er mwyn sicrhau ein bod yn deall yr hyn yr oedd talwyr ffi'r drwydded ei eisiau. O ganlyniad, mae gan y BBC bellach weithdrefn gwyno newydd, a fydd yn dechrau yn ystod haf 2012, a ddylai ddarparu proses glir, teg, effeithlon ac amserol ar gyfer ymdrin â chwynion i dalwyr ffi'r drwydded.

### Canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC) eleni

O ran cwynion golygyddol, mae gan y system gwyno dri cham. Fel arfer, BBC Audience Services sy'n gyfrifol am gam cyntaf ymateb i gŵyn. Os na fydd yr achwynnydd yn fodlon ar yr ymateb yn ystod cam un, gall fynd i'r cam nesaf. Wedyn, ymdrinnir â chwynion ar faterion golygyddol gan yr Uned Cwynion Golygyddol, ac ymdrinnir â chwynion eraill gan uwch reolwyr perthnasol yn y BBC.

Mae'r cam terfynol yn berthnasol i'r apeliadau hynny y bydd achwynwyr am eu cyflwyno i gam tri. Caiff y rhain eu rheoli gan yr Ymddiriedolaeth drwy'r Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC), sef cyfryngwr terfynol proses gwyno'r BBC. Eleni, cafodd yr ESC 240 o geisiadau am apêl; cyflwynwyd 77 ohonynt ger bron yr ESC fel apeliadau llawn. Penderfynodd Uned yr Ymddiriedolaeth na ddylai'r cwynion eraill fynd rhagddynt i'r ESC gan deimlo nad oedd tebygolrwydd rhesymol y byddent yn llwyddo. Heriwyd rhai o'r penderfyniadau hyn, a chyflwynwyd yr heriau hyn hefyd gerbron yr ESC. Felly, ymdriniodd yr ESC â chyfanswm o 194 o achosion. O'u plith, ymdriniwyd ag 86% o fewn y terfyn amser targed ar gyfer apeliadau golygyddol (16 wythnos o dderbyn yr apêl), cynnydd bach o 84% y llynedd. O'r 77 o apeliadau llawn, cadarnhawyd tair, cadarnhawyd 23 yn rhannol ac ni chadarnhawyd 51 ohonynt. Ystyriodd yr ESC hefyd achosion a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd Gweithredol.

Ymhlith y canfyddiadau sylweddol a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn roedd y canlynol:

- BBC World News: daeth yr ESC i'r casgliad fod nifer fach o raglenni a ddarlledwyd ar BBC World News rhwng mis Chwefror 2009 a mis Gorffennaf 2011 yn torri'r rheolau o ran nawdd a gwrthdaro buddiannau sy'n anelu at ddiogelu integredd golygyddol y BBC. Cytunodd yr ESC fod yr achosion hyn yn ddifrifol a darlledodd y BBC ymddiheuriad. Ers hynny, mae BBC World News wedi cadarnhau na fydd bellach yn comisiynu nac yn caffael rhaglenni a noddir gan sefydliadau anfasnachol (fel sefydliadau elusennol) ac mae wedi cymryd camau eraill i ddiogelu gallu'r BBC i fod yn ddiduedd ac i ddiogelu yn erbyn achosion o wrthdaro buddiannau.
- *BBC News at Ten*, 12 Awst 2011: daeth yr ESC i'r casgliad bod y rhifyn hwn wedi darlledu allbwn a allai arwain at adnabod person ifanc (o dan 18 oed) a oedd yn rhan o achos mewn llys ieuenctid, a waherddir gan y gyfraith. Bu'n rhaid i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau bod staff yn deall yn llawn rwymedigaethau'r BBC i ddiogelu plant mewn achosion yn y llysoedd ieuenctid rhag cael eu hadnabod a'u bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.
- Cynnig *Top Gear* am TomTom ag enw brand: canfu'r ESC fod cytundeb masnachol yr ymrwymwyd iddo gyda TomTom ar gyfer cynhyrchu dyfais llywio lloeren gan ddefnyddio brand *Top Gear* yn mynd yn groes i ganllawiau'r BBC ar wrthdaro buddiannau. Y rheswm am hyn oedd na ellid ystyried bod cyflwynydd *Top Gear* yn cymeradwyo cynnyrch unigol yn ymwneud â cheir yr oedd gan y BBC fuddiant masnachol ynddo. Byddai hefyd yn gosod cyfyngaidau golygyddol ar raglen *Top Gear*. Nododd yr ESC fod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi atal y cytundeb cyn iddo fynd rhagddo'n derfynol a chytunodd nad oedd unrhyw achos bwriadol o fynd yn groes i'r Canllawiau. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cymryd camau ers hynny i wella dealltwriaeth staff o'r hyn sy'n cyfateb i achos o wrthdaro buddiannau, ac i dynhau'r protocolau sy'n bodoli eisoes.

**Mae proses gwyno effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y BBC yn atebol i dalwyr ffi'r drwydded**

# MASNACHU'N DEG

**Mae gennym ddyletswydd i sicrhau pan fo'r BBC yn gwario arian talwyr ffi'r drwydded, ei fod yn ystyried ei effaith gystadleuol ar y farchnad ehangach ac yn cynnal ei fusnes mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon bod y BBC wedi parhau i weithredu'n deg o fewn y fframwaith masnachu teg eleni.**

> Mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon bod y BBC yn gweithredu gan gydymffurfio â'i bolisïau a'i fframwaith masnachu teg

> Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod ein trefniadau masnachu teg yn parhau'n gyfredol, ac eleni, gwnaethom gyhoeddi polisïau wedi'u diweddaru a'u symleiddio

Cynlluniwyd polisïau a fframwaith masnachu teg yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y BBC yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn unol â'i Siarter a'i Gytundeb a gofynion yr Ymddiriedolaeth. Mae'r disgwyliad y bydd y BBC, wrth gynnal ei holl weithgareddau, yn ystyried ei effaith ar y farchnad yn greiddiol i'n polisïau masnachu teg. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r cyhoedd a'r diwydiant ymddiried yn y BBC, ac yn bwysicach nag erioed yn yr oes sydd ohoni wrth i'r cyfryngau a'n diwydiant newid yn gyflym.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion masnachu teg o ddydd i ddydd. Eleni, derbyniodd gyfrifoldeb dros gomisiynu archwiliad annibynnol blynyddol y BBC o'i fframwaith a'i brosesau masnachu teg ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r archwilwyr wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod y gellir ei darllen yn llawn yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn.

Er mai'r Bwrdd Gweithredol sy'n ystyried cwynion masnachu teg am y BBC i ddechrau, yr Ymddiriedolaeth, drwy'r Bwrdd Cwynion ac Apeliadau, yw'r corff apêl terfynol. Yn 2011/12, ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau masnachu teg i'r Ymddiriedolaeth gan achwynwyr.

O ystyried tirlun cyfnewidiol y cyfryngau, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod ein trefniadau masnachu teg yn parhau'n gyfredol, a'u bod yn parhau i adlewyrchu ein hegwyddorion wrth i'r diwydiant ddatblygu. Yn ystod 2010/11, cynhaliwyd yr arolwg bob tair blynedd cyntaf o bolisïau masnachu teg yr Ymddiriedolaeth ac ym mis Tachwedd 2011, gwnaethom gyhoeddi cyfres wedi'i diweddaru a'i symleiddio o bolisïau masnachu teg sy'n nodi sut y dylai'r BBC ymddwyn wrth ryngweithio gyda'r farchnad ehangach. Cyn hyn, ym mis Gorffennaf, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein harolwg o drefniadau llywodraethu a nododd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n gweithredu er budd y cyhoedd ac yn parchu'r marchnadoedd rydym yn gweithredu o'u mewn.

### Polisïau a fframwaith masnachu teg diwygiedig

Wrth ddiweddaru ein polisïau a'n fframwaith masnachu teg, daethpwyd â nifer o ddogfennau gwahanol ynghyd i greu un ddogfen, gan geisio darparu esboniad cliriach o'r gwahanol brosesau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu defnyddio i gyflawni ei dyletswydd wrth ystyried effaith gystadleuol y BBC. Mae'r esboniadau hyn yn cynnwys sut y dylai'r BBC gynnal asesiadau cymesur o'i effaith gystadleuol ar eraill, a sut y dylai sicrhau pan fo canllawiau golygyddol a chanllawiau masnachu teg y BBC yn cyfeirio at ei gilydd, y caiff y cyfeiriadau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein cod effaith gystadleuol ar draws-hyrwyddo er mwyn sicrhau bod trawshyrwyddiadau ar-lein yn cyfeirio'n briodol at y nifer ehangach o lwyfannau digidol a ddefnyddir bellach i ddarparu gwasanaethau'r BBC.

### Gwella trefniadau llywodraethu corfforaethol

Yn unol â rôl strategol yr Ymddiriedolaeth yn pennu'r fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer masnachu teg, gwnaethom ofyn i'r Bwrdd Gweithredol gymryd mwy o gyfrifoldeb dros faterion masnachu teg o ddydd i ddydd, gan gynnwys comisiynu'r archwiliad masnachu teg blynyddol. Bydd gan y cyfarwyddwyr anweithredol sy'n gweithio ar fasnachu teg yn y BBC bellach gydberthynas fwy uniongyrchol â'r Ymddiriedolaeth er mwyn helpu i atgyfnerthu annibynniaeth swyddogaeth masnachu teg y Bwrdd Gweithredol wrth sicrhau cydymffurfiad â gofynion masnachu teg.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredol i ymsefydlu'r prosesau newydd hyn a fydd yn helpu i atgyfnerthu gallu'r BBC i fasnachu'n deg a chynnal hyder y cyhoedd a gweddill diwydiant y cyfryngau.



# ATEBOLRWYDD I GYNULLEIDFAOEDD

Mae'n ddyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i gynrychioli holl dalwyr ffi'r drwydded. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni ymgysylltu â chynulleidfaoedd ledled y DU, drwy ein Cynghorau Cynulleidfa, ymchwil ac ymgynghoriadau, er mwyn ein galluogi i ddeall eu safbwyntiau a'u hystyried wrth wneud ein penderfyniadau. Mae'n rhaid i ni hefyd fod yn agored a thryloyw ynghylch sut rydym yn gweithio a'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud.



Mae'r 'Proms', a ddarlledir yn fyw ar BBC Radio 3 ac mewn sain manylder uwch yn bbc.co.uk/proms, yn cyflwyno cerddoriaeth glasurol a cherddoriaeth newydd i gynulleidfa ehangach.

# BOD YN DRYLOYW

Fel corff cyhoeddus mae gan y BBC gyfrifoldeb i weithredu mor dryloyw â phosibl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif ac mae wedi galw ar y BBC i bennu safonau newydd o ran bod yn agored a thryloyw. Rydym hefyd yn anelu at fod yn agored ynghylch sut rydym yn gweithio a'r penderfyniadau a wnawn.

Rydym yn ymgynghori â thalwyr ffi'r drwydded a'r diwydiant ynghylch penderfyniadau pwysig

Mae'r BBC bellach yn rhoi mwy o wybodaeth am ei weithgarwch presennol a'r gweithgarwch a gynlluniwyd ganddo a sut mae'n gwario ffi'r drwydded.

Ers 2009 mae'r BBC wedi cyhoeddi union gyflogau a chyfanswm cydnabyddiaeth ei reolwyr uchaf gan fod y cyhoedd yn disgwyl i'r BBC fod yn dryloyw ynghylch cyflogau swyddogion gweithredol. Caiff treuliau, costau lletygarwch a rhestr rhoddion y grŵp eu cyhoeddi bob chwarter, ynghyd ag unrhyw ddatganiadau buddiannau personol. Mae'r BBC hefyd bellach yn datgelu ar ei wefan gyflog pob uwch reolwr arall mewn bandiau o £5,000 ac yn ôl teitl swydd cyffredinol ac is-adran.

Eleni, ar ein cais, dechreuodd y Bwrdd Gweithredol gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut mae'n perfformio yn erbyn rhai o'i amcanion allweddol. Ceir gwybodaeth fwy manwl yng nghynllun gwaith cryno 2012/13 sy'n disgrifio strategaeth, amcanion a chyllideb fras y BBC ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithredu'n dryloyw tra'n sicrhau gwerth am arian ac yn cyflawni ein hamcanion.

Amcan strategol

## PENNU SAFONAU NEWYDD O RAN BOD YN AGORED A THRYLOYW

Eleni, cyhoeddodd y BBC fwy o wybodaeth nag erioed am ei weithgarwch presennol a'r gweithgarwch a gynlluniwyd ganddo a sut mae'n gwario ffi'r drwydded.

- Cynllun gwaith a chyllideb gryno.
- Cyflog uwch reolwyr a chostau talent.
- Ffigurau cynulleidfa chwarterol ar gyfer gwasanaethau'r BBC.
- Gwybodaeth chwarterol am dreuliau, rhestrau rhoddion, lletygarwch a datganiadau buddiannau personol uwch reolwyr.
- Cynhaliodd y Bwrdd Gweithredol gyfres o sesiynau briffio ar BBC Ar-lein.
- Trefnodd yr Ymddiriedolaeth gyfres o drafodaethau bord gron ar ddiwydiant y cyfryngau.

### Ymddiriedolaeth agored y BBC

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn uniongyrchol atebol i dalwyr ffi'r drwydded; mae hyn yn hanfodol i gynnal annibyniaeth y BBC. Daw atebolrwydd law yn llaw â chyfrifoldeb i weithredu mewn ffordd dryloyw.

Rydym yn ymgynghori â thalwyr ffi'r drwydded a'r diwydiant ynghylch penderfyniadau pwysig, rydym yn gwneud gwaith ymchwil â'r gynulleidfa ac yn defnyddio ein rhwydwaith o Gynghorau Cynulleidfa i'n helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded ledled y DU.

Pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, byddwn yn cyhoeddi tystiolaeth ac yn egluro ein casgliadau. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau penderfyniadau apeliadau golygyddol, canlyniadau arolygon gwerth am arian ac arolygon o drwyddedau gwasanaeth a chofnodion cyfarfodydd misol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan.

### Cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth 2012/13

Rydym hefyd yn anelu at fod yn agored ynghylch ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bob blwyddyn ar ein gwefan rydym yn cyhoeddi trosolwg o'r gwaith y gwyddom y gallwn gynllunio ar ei gyfer dros y flwyddyn i ddod.

Ein blaenoriaeth yn 2012/13 fydd sicrhau bod y BBC yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei bedwar amcan strategol. Byddwn yn ei helpu i wneud hynny gyda'r gwaith canlynol a gynlluniwyd: adolygu BBC Ar-lein yn ystod hydref 2012 ac allbwn y BBC i blant (CBBC a CBeebies) ar ddechrau 2013; cynnal ein trydydd arolwg bob dwy flynedd o'r Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol yn ystod hydref 2012; goruchwylio'r gwaith o sicrhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol o 11% erbyn 2016/17; a chael adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar effeithiolrwydd systemau rheolaeth ariannol y BBC ac ar y broses o symud nifer o adrannau'r BBC i Media City yn Salford.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwarchod refeniw ffi'r drwydded a buddiannau cyhoeddus yn y BBC. Eleni felly byddwn yn goruchwylio'r broses o roi'r setliad newydd ar waith ac yn sicrhau bod y trefniadau rheoli ac ariannu ar gyfer rhwymedigaethau newydd y BBC er budd talwyr ffi'r drwydded.

# DEALL CYNULLEIDFAOEDD

**Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud penderfyniadau am y BBC sy'n effeithio ar gynulleidfaoedd ac ar randdeiliaid eraill, yn cynnwys y diwydiant cyfathrebu ehangach. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn gwybod beth yw eu barn er mwyn ein galluogi i'w hystyried – ac yna cyfathrebu â hwy ynghylch y penderfyniadau hyn. Eleni y meysydd allweddol y gwnaethom geisio mewnbwn arnynt oedd ein harolygon o'n gwasanaethau, a strategaeth arfaethedig y BBC ar gyfer y dyfodol.**

Er mwyn deall safbwyntiau cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid proffesiynol, rydym yn cynnal rhaglen o ymgynghoriadau, ymchwil ac ymgysylltu ac yn cael ein cynghori gan ein Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Ymgynghoriadau cyhoeddus

Dros y 12 mis diwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal wyth ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'n rhaglen o arolygon o wasanaethau, arolygon strategaeth a newidiadau i ganllawiau polisi. Gwnaethom hefyd ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion y Bwrdd Gweithredol i roi strategaeth newydd y BBC ar waith, mewn ymateb i setliad cyllido 2010 – fel y gwnaethom addo ei wneud. Cawsom dros 30,000 o ymatebion gan y cyhoedd i'n hymgynghoriadau eleni, ynghyd â sawl ymateb gan sefydliadau (yn cynnwys cyrff diwydiant, elusennau, grwpiau â buddiannau ac eraill).

Eleni, gwnaethom hyrwyddo'r ymgynghoriadau ar donfeddi'r BBC fwy nag erioed o'r blaen. Gwnaethom gynnal ymgyrchoedd ar draws y sianelau teledu a'r gorsafoedd radio, yn genedlaethol ac yn lleol, ac ar BBC Ar-lein. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ar holl rwydweithiau teledu'r BBC, y rhan fwyaf o'r rhwydweithiau radio ac ar bbc.co.uk. Amcangyfrifir bod 24.2 miliwn o oedolion wedi gweld yr ymgyrch deledu yn unig (42% o boblogaeth y DU). Galluogodd ein hymgynghoriad ar BBC Asian Network i bobl ymateb mewn Hindi, Wrdw, Bengali, Punjabi a Gujarati.

Gwnaeth yr ymatebion a gawsom ein helpu i lunio ein canfyddiadau a'n hargymhellion. Yn benodol, roedd yr ymateb cryf a gawsom i'r cynigion ar gyfer Radio Lleol y BBC yn allweddol i'n penderfyniad i alw ar y Bwrdd Gweithredol i gwtogi'r newidiadau arfaethedig.

## Ymchwil i'r gynulleidfa

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynrychioli ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r holl gynulleidfaoedd, nid dim ond y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, rydym yn comisiynu ymchwil ymysg amrywiaeth ehangach o dalwyr ffi'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys arolygon sy'n adlewyrchu cynrychiolaeth genedlaethol i'n galluogi i ddeall cryfder y safbwyntiau ledled y DU ac i werthfawrogi unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau amrywiol o bobl. Mae hefyd yn cynnwys ymchwil feintiol ac ansoddol benodol.

Eleni gwnaethom olrhain canfyddiadau o'r modd y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus drwy arolwg o fwy na 2,000 o oedolion. Ar gyfer ein harolygon o wasanaethau, gwnaethom gomisiynu cymysgedd o ymchwil feintiol ac ansoddol i'n galluogi i ddeall safbwyntiau cynulleidfaoedd y gwasanaethau hynny. Eleni gwnaethom gomisiynu ymchwil ymysg cynulleidfaoedd Radio Lleol y BBC, BBC Radio 5 Live a sianelau BBC News a BBC Parliament i ategu'r canfyddiadau o'n hymgynghoriadau cyhoeddus ar y gwasanaethau hyn.

Ar gyfer ein harolwg o BBC Asian Network gwnaethom gynnal ymchwil feintiol ac ansoddol gan ddefnyddio asiantaeth arbenigol gyda chynulleidfaoedd niche o amryw o gefndiroedd ethnig, gan ganolbwyntio ar brif grwpiau poblogaeth De Asia ym Mhrydain (Prydeinig Indiaidd, Prydeinig Pacistani a Phrydeinig Bangladeshi). Roedd ymchwil ansoddol hefyd yn rhan bwysig o'n harolwg o natur ddiduedd darllediadau'r BBC o'r digwyddiadau a elwir yn 'Wanwyn Arabaidd'.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU

Rydym yn parhau i ymgysylltu â diwydiant a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ein bod yn deall buddiannau'r diwydiant cyfryngau ehangach ac effaith bosibl ein penderfyniadau. Fel rhan o'r trafodaethau ynghylch rhoi strategaeth y BBC ar waith, gwnaethom gynnal cyfres o gyfarfodydd ford gron ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ledled y DU, gan archwilio agweddau penodol ar y cynigion o'r effaith ar brosesau cynhyrchu yn y gwledydd datganoledig i effaith newyddiaduraeth leol yn Lloegr.

**Roedd yr ymateb cryf i gynigion ynghylch Radio Lleol y BBC yn hanfodol yn ein penderfyniad i alw ar y Bwrdd Gweithredol i gwtogi'r newidiadau arfaethedig**

Aelodau o'r cyhoedd yn llenwi holiadur ymgynghoriad cyhoeddus Ymddiriedolaeth y BBC.



# CYNGHORAU CYNULLEIDFA

Dan gadeiryddiaeth eu Hymddiriedolwyr Cenedlaethol, mae Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ar safbwyntiau talwyr ffi'r drwydded, ac yn nodi pa mor dda y mae'r BBC yn perfformio ym marn rhannau gwahanol o'r DU. Eleni roedd y gwaith yn canolbwyntio ar y newidiadau a gynigiwyd gan y BBC yn dilyn setliad newydd ffi'r drwydded.

Croesawodd y Cynghorau ymchwil y Bwrdd Gweithredol ar sut y caiff grwpiau oedran gwahanol eu gwasanaethu, a chynnydd yn nifer y rhaglenni a wneir yn rhanbarthau Lloegr a gaiff eu darlledu ar y rhwydwaith

Caiff y Cynghorau eu recriwtio i adlewyrchu'r amrywiaeth a geir yn y DU, ac mae'r aelodau yn wirfoddolwyr. Maent yn gwrando ar safbwyntiau cynulleidfaoedd, ac yn nodi materion o bwys y gall yr Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â hwy. Maent yn cwrdd yn rheolaidd i baratoi eu cyngor ac rydym yn ymgynghori â hwy ynghylch newidiadau arfaethedig o bwys i wasanaethau a strategaeth y BBC. Mae'r pedwar Cyngor yn cwrdd bob blwyddyn i drafod materion sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd ledled y DU.

### Gwrando ar gynulleidfaoedd

Eleni, cynhaliodd y Cynghorau gyfarfodydd â thalwyr ffi'r drwydded yn benodol i ymgynghori â hwy ar berfformiad gorsafoedd radio'r BBC ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ar Radio Lleol y BBC ac ar BBC Asian Network. Cyfarfu aelodau o bob Cyngor i drafod yr arolygon o BBC Radio 5 Live a sianelau BBC News a BBC Parliament gyda rheolwyr gwasanaethau cyn cyflwyno eu cyngor terfynol i'r Ymddiriedolaeth.

### Perfformiad yn erbyn blaenoriaethau cynulleidfaoedd 2011/12

Nododd y Cynghorau fod talwyr ffi'r drwydded am gael gwell mynediad i wasanaethau'r BBC. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd gwelliant sylweddol yn hygyrchedd BBC Radio Wales ar FM, daeth BBC ALBA ar gael ar Freeview, ac mae'r Cynghorau wedi galw am strategaeth ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i'r gwledydd a'r rhanbarthau ar HD. Canolbwyntiodd arolygon yr Ymddiriedolaeth o wasanaethau radio'r gwledydd, fel yr awgrymodd y Cynghorau, ar sut maent yn cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil. Roedd y Cynghorau hefyd am i'r BBC wella'r modd y mae'n portreadu'r DU sydd ohoni, ac felly gwnaethant groesawu ymchwil y Bwrdd Gweithredol ar sut y caiff grwpiau oedran gwahanol eu gwasanaethu, a chynnydd yn nifer y rhaglenni a wneir yn rhanbarthau Lloegr a gaiff eu darlledu ar y rhwydwaith.

### Cynghori'r Ymddiriedolaeth

Ymysg y materion allweddol a godwyd gan gynulleidfaoedd roedd y pwysigrwydd o gynnal darllediadau chwaraeon rhanbarthol yn Lloegr; trefniadau atebolrwydd ar gyfer S4C (a gaiff ei ariannu'n helaeth gan ffi'r drwydded o 2013/14); cynaliadwyedd prosesau cynhyrchu rhwydwaith yng Ngogledd Iwerddon; a cholli rhai rhwydweithiau radio o Freeview yn yr Alban. Cyflwynodd y Cynghorau ymatebion ar gynigion y BBC mewn perthynas â rhoi ei strategaeth ar waith, gan godi pryderon ynghylch y posibilrwydd o rannu rhaglenni rhwng gorsafoedd radio lleol yn Lloegr a dyfodol rhaglennu eithrio ar BBC Two yn y gwledydd.

### Cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus

Nododd Cyngor Cynulleidfa Lloegr bryderon ynghylch y posibilrwydd o golli rhaglennu materion cyfoes rhanbarthol, a'r effaith ar ddemocratiaeth leol. Nododd Cynghorau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon bryderon gyda'r modd y mae'r BBC yn portreadu eu gwledydd a'u cymunedau i gynulleidfa ledled y DU. Roedd Cyngor Cynulleidfa Cymru o'r farn y dylid atgyfnerthu gwasanaethau craidd i Gymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13

Mae'r Cynghorau am i'r BBC nodi strategaeth ar gyfer y gwledydd a rhaglenni teledu eithrio yn Lloegr ar HD ledled y DU a fydd yn sicrhau amrywiaeth ac ansawdd y cynnwys. Maent am i BBC News wneud mwy i gymharu gwahaniaethau polisi cyhoeddus rhwng y gwledydd. Mae'r Cynghorau yn croesawu cynnig y BBC i ddarlledu mwy o raglenni'r gwledydd ar y rhwydweithiau, gan sicrhau y cedwir eu natur nodedig diwylliannol. Ceir rhagor o fanylion am gyngor y Cynghorau i'r Ymddiriedolaeth yn eu harolygon blynyddol eu hunain.



Aelodau'r Cynghorau Cynulleidfa yn trafod eu safbwyntiau gyda'r Ymddiriedolaeth.



# O FEWN YR YMDDIRIEDOLAETH

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff llywodraethu'r BBC, ar wahân i'r Bwrdd Gweithredol sy'n rheoli gweithrediadau'r BBC o ddydd i ddydd. Yma ceir manylion am yr Ymddiriedolwyr a'u cydnabyddiaeth ac esboniad o sut rydym yn rhedeg yr Ymddiriedolaeth er budd holl dalwyr ffi'r drwydded.

Y Cadeirydd, yr Arglwydd Patten gyda'r Is-Gadeirydd Diane Coyle yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Llundain.

# YMDDIRIEDOLWYR Y BBC

Mae'r Ymddiriedolwyr yn rhan amser ac yn dod o amrywiol gefndiroedd, gan gynnig amrywiaeth mawr o brofiad i'r BBC. Cânt eu penodi gan y Frenhines ar gyngor gweinidogion yn dilyn proses benodi agored. Ymhlith yr Ymddiriedolwyr mae Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac Ymddiriedolwyr Cenedlaethol dros Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Yr Arglwydd Patten o Barnes CH, Cadeirydd**
Fe'i penodwyd yn Gadeirydd o 1 Mai 2011.

Rolau eraill: Canghellor, Prifysgol Rhydychen; Cyd-Gadeirydd, UK India Round Table; Cyfarwyddwr anweithredol, Russell Reynolds Associates; aelod o Fwrdd Cynghori Rhyngwladol, BP; aelod o Banel Cynghori Rhanddeiliaid, EDF.

**Diane Coyle OBE, Is-Gadeirydd**
Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Strategaeth a Chymeradwyaeth. Y prif Ymddiriedolwr ar gyfer materion masnachol a'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Rolau eraill: Cyfarwyddwr, Enlightenment Economics; aelod o'r Pwyllgor Cynghori ar Fudo; aelod o Banel Cynghori Rhanddeiliaid, EDF.

**Richard Ayre**
Mae'n cadeirio'r Bwrdd Cwynion ac Apeliadau. Y prif Ymddiriedolwr ar faterion yn ymwneud â bod yn dryloyw a'r fframwaith cwyno.

Rolau eraill: Dyfarnwr Rhyddid Gwybodaeth, Cymdeithas y Gyfraith.

**Anthony Fry**
Mae'n cadeirio Pwyllgor Cyllid yr Ymddiriedolaeth. Y prif Ymddiriedolwr ar gyfer arolygon masnachu teg a gwerth am arian.

Rolau eraill: Cadeirydd, Espírito Santo UK, Dairy Crest, a CALA; Cyfarwyddwr anweithredol, Control Risks, Twig Rights Ltd.

**Alison Hastings**
Yr Ymddiriedolwr dros Loegr (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Lloegr); mae'n cadeirio'r Pwyllgor Safonau Golygyddol. Arweiniodd arolwg yr Ymddiriedolaeth o BBC Radio 5 Live a BBC 5 Live Sports Extra.

Rolau eraill: Is-lywydd, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain; ymgynghorydd a hyfforddwr yn ôl galw, Comisiwn Cwynion y Wasg; cynghorydd yn ôl galw, Camelot.

**Rotha Johnston CBE**
Yr Ymddiriedolwr dros Ogledd Iwerddon (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon); y prif Ymddiriedolwr ar faterion eiddo.

Rolau eraill: Partner, Johnston Partnership; Cyfarwyddwr anweithredol, AIB (UK) plc; Is-Ganghellor, Queen's University, Belfast.

**David Liddiment**
Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad. Arweiniodd arolwg yr Ymddiriedolaeth o sianelau BBC News a BBC Parliament.

Rolau eraill: Cyfarwyddwr anweithredol, All3Media; Aelod cyswllt, Old Vic Theatre Company; Cadeirydd, Hepworth Wakefield Gallery.

**Bill Matthews**
Yr Ymddiriedolwr dros yr Alban (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa yr Alban).

Rolau eraill: Cyfarwyddwr, M2M2 Limited; Cadeirydd, NHS National Services Scotland; Cyfarwyddwr anweithredol, Security Industry Authority; Cadeirydd, Crimestoppers Scotland.

**Mehmuda Mian**
Cadeiriodd y Panel Apeliadau Cyffredinol. Y prif Ymddiriedolwr ar gyfer materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Arweiniodd arolwg yr Ymddiriedolaeth o Radio Lleol y BBC a BBC Asian Network. Rolau eraill: Cyfarwyddwr anweithredol, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol; Cyfarwyddwr cyswllt, Lokahi Foundation.

**Elan Closs Stephens CBE**
Yr Ymddiriedolwr dros Gymru (mae'n cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru).

Rolau eraill: Athro, Prifysgol Aberystwyth; Cyfarwyddwr anweithredol a chadeirydd, Llywodraethu Corfforaethol, Llywodraeth Cymru; Cyfarwyddwr anweithredol, IMAX Waterloo ar gyfer BFI.

**Suzanna Taverne**
Mae'n Ymddiriedolwr o 1 Ionawr 2012.

Rolau eraill: Cyfarwyddwr anweithredol, Nationwide, Ford Credit Europe; Ymddiriedolwr, Gwasanaeth Cyngor ar Gredyd i Ddefnyddwyr, Shakespeare Schools Festival; Aelod o fwrdd cynghorol, Ysgol Fusnes Manceinion.

**Yr Arglwydd Williams o Faglan**
Mae'n Ymddiriedolwr o 1 Rhagfyr 2011.

Mae'n cadeirio'r Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol.

Rolau eraill: Cymrawd Gwadd Nodedig, Chatham House; Aelod o fwrdd cynghori rhyngwladol, Toledo CITPAX, Toledo International Centre for Peace.

Mae hyn yn adlewyrchu aelodaeth yr Ymddiriedolaeth ar 21 Mehefin 2012. Nid oedd unrhyw lefydd gwag ar yr adeg hon.



**Yr Arglwydd Patten o Barnes CH**
Cadeirydd



**Diane Coyle OBE**
Is-Gadeirydd



**Richard Ayre**



**Anthony Fry**



**Alison Hastings**
Lloegr



**Rotha Johnston CBE**
Gogledd Iwerddon



**David Liddiment**



**Bill Matthews**
Yr Alban



**Mehmuda Mian**



**Elan Closs Stephens CBE**
Cymru



**Suzanna Taverne**



**Yr Arglwydd Williams o Faglan**

## Newidiadau i'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn

Daeth cyfnod Syr Michael Lyons fel Cadeirydd i ben ar 30 Ebrill 2011. Ymddiswyddodd y Fonesig Patricia Hodgson fel Ymddiriedolwr ar 6 Mehefin 2011.

Dechreuodd cyfnod yr Arglwydd Patten fel Cadeirydd ar 1 Mai 2011. Dechreuodd cyfnod Diane Coyle fel Is-gadeirydd ar 1 Mai 2011. Dechreuodd cyfnod yr Arglwydd Williams fel Ymddiriedolwr ar 1 Rhagfyr 2011. Dechreuodd cyfnod Suzanna Taverne fel Ymddiriedolwr ar 1 Ionawr 2012.

# LLYWODRAETHU

**Mae sut rydym yn gweithio a'r hyn a wnawn yr un mor bwysig â'i gilydd. Felly mae ein prosesau mor agored a thryloyw â phosibl. Yn ogystal â'r Adroddiad Blynyddol hwn, rydym yn cyhoeddi adroddiadau a chanfyddiadau yn llawn ar ein gwefan. Mae Uned yr Ymddiriedolaeth, sef aelodau o staff sy'n rhoi cyngor annibynnol i ni ar ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau, yn ein cynorthwyo.**

Amlinellir dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth yn Siarter Frenhinol y BBC a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae gennym gyfres o brotocolau i ategu'r dogfennau hyn. Maent yn rhoi mwy o fanylion am sut rydym yn mynd ati i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol a, lle bo angen, yn eu hesbonio. Mae'r holl ddogfennau hyn ar ein gwefan.

Ymdrinnir â materion busnes beunyddiol mewn cyfarfodydd misol a fynychir gan bob Ymddiriedolwr ac mewn rhai is-bwyllgorau. Yn y cyfarfodydd hyn gwnawn benderfyniadau sy'n ymwneud â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ac ystyriwn gynigion gan y Bwrdd Gweithredol. Cyhoeddir cofnodion ein cyfarfodydd misol ar ein gwefan.

## Arolwg o drefniadau llywodraethu'r BBC

Eleni, ar ôl iddo gael ei benodi, cynhaliodd y Cadeirydd arolwg o drefniadau llywodraethu'r BBC i gadarnhau a ellid eu gwella o fewn fframwaith y Siarter Frenhinol gyfredol.

Daeth yr arolwg i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu'r BBC yn ymarferol, yn effeithiol ar y cyfan ac o fudd i dalwyr ffi'r drwydded a'r diwydiant ond gwnaeth rai argymhellion oedd â'r nod o atgyfnerthu'r trefniadau presennol. Gwnaethom weithredu yn y meysydd canlynol:

- rhannu cyfrifoldebau yn gliriach rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol
- rôl ehangach i Ofcom mewn perthynas â'r effaith ar y farchnad
- system cwynion a chydymffurfiaeth golygyddol well, ac arolygon mwy rheolaidd ar fod yn ddiduedd
- symleiddio prosesau llywodraethu gwasanaethau'r BBC

Credwn fod pobl o fewn y BBC a'r tu allan iddo yn deall systemau llywodraethu'r BBC yn well bellach. Wrth roi casgliadau'r arolwg hwn ar waith, eleni mae'r Ymddiriedolaeth wedi:

- gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gweithredol i egluro cyfrifoldebau strategol yr Ymddiriedolaeth yn well gan adael materion mwy gweithredol i'r Bwrdd Gweithredol
- diwygio'r Memorandwm Dealltwriaeth ag Ofcom i alluogi'r Ymddiriedolaeth i ystyried safbwyntiau Ofcom ar yr effaith ar y farchnad mewn amrywiaeth ehangach o amgylchiadau
- diwygio system gwynion y BBC i sicrhau ei bod yn gyflymach, yn symlach ac yn haws ei deall
- sefydlu rhaglen o seminarau ar fod yn ddiduedd i ategu arolygon rheolaidd yr Ymddiriedolaeth o natur ddiduedd allbwn y BBC
- sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol newydd i oruchwylio'r trefniadau llywodraethu ac ariannu ar gyfer BBC World Service
- penderfynu peidio ag ailgomisiynu 'cynlluniau pwrpas', a chytuno ar ddull symlach o adolygu gwasanaethau

## Partneriaeth S4C

Ym mis Hydref 2011 daethpwyd i gytundeb rhwng Awdurdod S4C, Ymddiriedolaeth y BBC a Llywodraeth y DU ar gyllid, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd S4C hyd at 2017, ar ôl cyhoeddi y byddai S4C yn cael ei hariannu drwy ffi'r drwydded o 2013. Mae'r trefniadau hyn yn diogelu annibyniaeth olygyddol a rheolaethol S4C ac yn sicrhau atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y cyllid drwy ffi'r drwydded.

## Uned yr Ymddiriedolaeth

Mae Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n rhoi cyngor annibynnol a gwrthrychol i ni, yn ein cynorthwyo i wneud ein gwaith, gan alw ar arbenigwyr allanol lle y bo angen. Mae'r Uned yn cynnwys staff y BBC sy'n annibynnol ar y Bwrdd Gweithredol ac sy'n uniongyrchol atebol i ni. Mae'n cynnwys staff proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys llywodraethu corfforaethol, datblygu polisi, ymchwil cynulleidfa, dadansoddi ariannol a pherfformiad, economeg a'r gyfraith. Mae'r Uned yn ein cynghori ar ein dyletswyddau, yn rheoli swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio'r Ymddiriedolaeth ac yn cyflwyno asesiadau annibynnol o gynigion y Bwrdd Gweithredol i'r Ymddiriedolaeth. Lleolir y rhan fwyaf o staff yr Uned yn Llundain; tra bod eraill yn gweithio mewn swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Birmingham a Glasgow.

## Pwyllgorau'r Ymddiriedolaeth

Gwnawn gryn dipyn o'n gwaith drwy bwyllgorau, a all wneud penderfyniadau penodol ar ran yr Ymddiriedolaeth gyfan. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom nifer o newidiadau i strwythur y pwyllgorau i ystyried casgliadau terfynol arolwg llywodraethu'r Ymddiriedolaeth. Diwygiwyd cylchoedd gwaith rhai pwyllgorau a sefydlwyd y Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol i helpu'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus rhyngwladol y BBC ac asesu eu perfformiad. Dangosir aelodau o bob pwyllgor a'u presenoldeb yn ystod 2011/12 yn y tabl ar dudalen 1-31. Mae cylch gorchwyl pob un o bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ar ein gwefan.

### Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad
Cadeirydd: David Liddiment

Y Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad (APC) sy'n gyfrifol am ddatblygu'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU ac asesu eu perfformiad, ar ran yr Ymddiriedolaeth. Mae'n monitro'r ffordd y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau cyhoeddus.

Mae'r APC yn asesu perfformiad gwasanaethau'r BBC yn erbyn eu trwyddedau gwasanaeth, yn cynnwys goruchwylio rhaglen yr Ymddiriedolaeth o arolygon o wasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal arolwg gwasanaeth o holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU bob pum mlynedd o leiaf.

Mae'r APC hefyd yn gyfrifol am raglen yr Ymddiriedolaeth o ymchwil i'r gynulleidfa ac ymgynghoriadau cyhoeddus.

### Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa
Cadeirydd: Diane Coyle

Mae'r Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa (ACC) yn dwyn ynghyd yr Is-Gadeirydd a'r pedwar Ymddiriedolwr Cenedlaethol i oruchwylio a chydgysylltu cyfraniadau Cynghorau Cynulleidfa'r BBC fel cyrff ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth. Ei rôl yw sicrhau bod y materion a nodir gan y Cynghorau Cynulleidfa yn cael sylw priodol gan yr Ymddiriedolaeth a bod y Cynghorau'n gweithio o fewn eu cylchoedd gwaith. Mae'r ACC hefyd yn cymeradwyo aelodau'r Cynghorau Cynulleidfa.

### Pwyllgor Safonau Golygyddol
Cadeirydd: Alison Hastings

Y Pwyllgor Safonau Golygyddol (ESC), gan weithio ar ran yr Ymddiriedolaeth, sy'n gyfrifol am bennu safonau golygyddol y BBC ac asesu holl wasanaethau'r BBC o ran cydymffurfio â'r safonau hyn.

Mae safonau golygyddol yn rhan gynhenid o Ganllawiau Golygyddol y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn i'r Bwrdd Gweithredol baratoi Canllawiau drafft ac, os bydd wedi'i bodloni, bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymeradwyo. Yr ESC yw'r corff apêl terfynol o fewn y BBC ar gyfer penderfynu a ddilynwyd y Canllawiau Golygyddol.

Mae'r ESC hefyd yn rheoli rhaglen adolygu natur ddiduedd yr Ymddiriedolaeth.

### Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (hyd at fis Tachwedd 2011)
### Pwyllgor Cyllid yr Ymddiriedolaeth (o fis Rhagfyr 2011)
Cadeirydd (hyd at fis Rhagfyr 2011): Rotha Johnston
Cadeirydd (o fis Ionawr 2012): Anthony Fry

Ailenwyd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth (FCC) yn Bwyllgor Cyllid yr Ymddiriedolaeth (TFC) ym mis Rhagfyr 2011 yn unol â chasgliadau'r arolwg llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyllid a gwerth am arian.

Mae'r TFC yn archwilio cyllideb flynyddol y BBC a gyflwynir gan y Bwrdd Gweithredol cyn i'r Ymddiriedolaeth gyfan ei gweld ac yn craffu ar brif benderfyniadau ariannol y BBC sy'n cyflawni terfynau ariannol penodol yr Ymddiriedolaeth. Mae hefyd yn rheoli rhaglen astudiaethau gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod argymhellion yr astudiaethau yn cael eu gweithredu gan y Bwrdd Gweithredol. Mae'r TFC hefyd yn goruchwylio rheolaeth fewnol a swyddogaethau rheoli risg y Bwrdd Gweithredol.

### Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol (o fis Chwefror 2012)
Cadeirydd: Yr Arglwydd Williams

Sefydlwyd y Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol ym mis Chwefror 2012 ac mae'n gyfrifol am helpu'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus rhyngwladol y BBC ac asesu eu perfformiad. Mae gwasanaethau cyhoeddus rhyngwladol y BBC yn cynnwys BBC World Service, BBC World News a BBC Monitoring.

### Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau
Cadeirydd (hyd at fis Ebrill 2011): Syr Michael Lyons
Cadeirydd (o fis Mai 2011): Yr Arglwydd Patten

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau (RAC) sy'n gyfrifol am reoli cyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth o ran cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r RAC yn goruchwylio strategaeth cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar gyflog a buddiannau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a chyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd Gweithredol. Fodd bynnag, Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn unig sy'n gyfrifol am bennu cyflog a buddiannau'r cyfarwyddwyr gweithredol.

# LLYWODRAETHU
## PARHAD

### Pwyllgor Cymeradwyo Strategol (hyd at fis Tachwedd 2011) Pwyllgor Strategaeth a Chymeradwyaeth (o fis Rhagfyr 2011)
Cadeirydd: Diane Coyle

Ailenwyd y Pwyllgor Cymeradwyo Strategol yn Bwyllgor Strategaeth a Chymeradwyaeth (SAC) ym mis Rhagfyr 2011, gan adlewyrchu cylch gwaith sy'n canolbwyntio mwy ar strategaeth a materion masnachol.

Mae'r SAC yn ystyried cynigion y Bwrdd Gweithredol, yn cynnwys ar gyfer gwasanaethau newydd neu newidiadau i wasanaethau sy'n bodoli eisoes, heblaw am y rhai a gynigir fel rhan o arolwg gwasanaeth (a ystyrir gan yr APC). Mae'n ystyried a oes angen cynnal prawf gwerth cyhoeddus (PVT) ac yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn unol â hynny. Mae'r SAC yn rheoli unrhyw PVT neu ystyriaeth arall o gynnig gan y Bwrdd Gweithredol ac yn gwneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar ganlyniadau posibl. Mae'r SAC hefyd yn goruchwylio strategaeth fasnachol a chynigion unigol y BBC os ydynt o bwys strategol neu os oes gwerth mawr iddynt.

### Panel Apeliadau Cyffredinol (hyd at fis Tachwedd 2011) Bwrdd Cwynion ac Apeliadau (o fis Rhagfyr 2011)
Cadeirydd (hyd at fis Tachwedd 2011): Mehmuda Mian
Cadeirydd (o fis Rhagfyr 2011): Richard Ayre

Sefydlwyd y Bwrdd Cwynion ac Apeliadau (CAB) ym mis Rhagfyr 2011 a disodlodd y Panel Apeliadau Cyffredinol (GAP). Mae gan y CAB gylch gwaith ehangach na'r GAP ac mae'n gwrando cwynion yn ymwneud â materion nad ydynt yn rhai golygyddol, yn cynnwys masnachu teg, cwynion yn ymwneud â TV Licensing, a materion eraill. Mae'r CAB hefyd yn nodi penderfyniadau ar apeliadau ynghylch y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol (DSHS) a wnaed gan feirniad apeliadau'r DSHS, sy'n uwch aelod o staff Uned yr Ymddiriedolaeth. Yn 2011/12 cafodd Uned yr Ymddiriedolaeth 71 o apeliadau ynghylch TV Licensing, masnachu teg ac apeliadau cyffredinol,y gwrandawyd chwech ohonynt gan y CAB fel apeliadau llawn (cafodd pedair ohonynt eu derbyn yn rhannol ac ni chafodd dwy ohonynt eu derbyn). Nid aed i'r afael â dim o'r apeliadau llawn o fewn y terfyn amser targed gan eu bod yn gymhleth.

Gwneir gwaith y CAB gan ei Gadeirydd neu Is-Gadeirydd ynghyd â dau neu fwy o Ymddiriedolwyr eraill, a gaiff eu dethol fesul achos.

Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth un panel apeliadau ad hoc rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012 i wrando apêl mewn perthynas â darllediadau etholiadol y BBC. Ar gyfer y cyfarfod hwn, aelodau'r panel oedd: Alison Hastings (Cadeirydd); Richard Ayre; David Liddiment; Mehmuda Mian a Bill Matthews.

### Asesu ein perfformiad ein hun
Mae gennym ymrwymiad i adolygu ein perfformiad ein hunain bob blwyddyn, gan gynnwys perfformiad pob pwyllgor, a chrynhown ein canfyddiadau yn yr Adroddiad Blynyddol.

Y llynedd buom yn canolbwyntio ar bennu strategaeth y BBC ar gyfer y dyfodol a sicrhau y gellid cyflawni ei gynlluniau o fewn yr adnoddau sydd ar gael, ac yn ystod y broses hon buom yn gweithio'n dda gyda'r Bwrdd Gweithredol. Byddwn yn parhau i oruchwylio'r broses o roi strategaeth y BBC ar waith, gan sicrhau y gwneir hynny er budd talwyr ffi'r drwydded.

Hefyd cynhaliwyd y cylch cyntaf o'n rhaglen adolygu gwasanaethau. Drwy'r gwaith hwn gwnaethom ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif a seilio ein penderfyniadau ar yr hyn y dywedodd cynulleidfaoedd wrthym tra'n ystyried safbwyntiau cynrychiolwyr diwydiant a staff y BBC. Credwn ein bod wedi cynnal prosesau gwneud penderfyniadau yn effeithiol ac er bod lle i wneud gwelliannau gweithredol o hyd, gwnaethom ddelio â'r llif busnes yn effeithlon. Cyhoeddir ein cynllun gwaith ar gyfer 2012/13 ar ein gwefan ac mae'n nodi'r hyn y byddwn yn canolbwyntio arno dros y flwyddyn sydd i ddod.

### Cofrestr buddiannau
Mae ein Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw a chyhoeddi cofrestr o'r holl fuddiannau allanol y gellid ystyried eu bod yn effeithio ar ein gallu i gyflawni dyletswyddau un o Ymddiriedolwyr y BBC. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys datganiadau o bob swydd gyflogedig, swydd cyfarwyddwr a swydd wirfoddol yn ogystal â buddiannau aelodau agos o'r teulu, os yw'n berthnasol. Mae cofrestr buddiannau'r Ymddiriedolaeth ar gael ar ein gwefan.

## Presenoldeb yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd (1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012)

| | Ymddiried-olaeth | Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad | Pwyllgor Safonau Golygyddol | Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth/ Pwyllgor Cyllid yr Ymddiriedolaeth | Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol | Pwyllgor Cymeradwyo Strategol/Pwyllgor Strategaeth a Chymeradwyaeth | Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau | Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa | Panel Apeliadau Cyffredinol[1] | Bwrdd Cwynion ac Apeliadau[2] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd** | | | | | | | | | | |
| Yr Arglwydd Patten | 19/19 | † | † | † | † | † | 3/3* | † | † | † |
| Syr Michael Lyons | 1/1 | † | † | † | † | † | † | † | † | † |
| **Is-Gadeirydd** | | | | | | | | | | |
| Diane Coyle | 20/20 | 11/11 | † | † | 1/1 | 12/12* | 3/3 | 4/5* | 2/2 | 1/1 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | | | | | |
| Alison Hastings (Lloegr) | 20/20 | 11/11 | 17/18* | † | † | † | † | 5/5 | 2/2 | † |
| Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) | 19/20 | † | † | 14/14* | † | 7/7 | 3/3 | 5/5 | † | 3/3 |
| Bill Matthews (Yr Alban) | 20/20 | † | † | 7/9 | † | 12/12 | † | 5/5 | † | 1/1 |
| Elan Closs Stephens (Cymru) | 20/20 | † | 6/9 | 14/14 | 1/1 | † | † | 5/5 | 1/1 | † |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | | | | | |
| Richard Ayre | 20/20 | † | 17/17** | † | 1/1 | 12/12 | † | † | 3/3 | 5/5 |
| Anthony Fry | 17/20 | † | 4/9 | 12/14* | † | 2/5 | 3/3 | † | 1/1 | 1/1 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 3/3 | 2/2 | † | 2/2 | † | 2/2 | † | † | † | † |
| David Liddiment | 19/20 | 9/11* | 13/18 | † | 1/1 | † | † | † | 3/3 | † |
| Mehmuda Mian | 19/20 | 10/11 | 15/18 | † | † | † | † | † | 6/6 | 3/3 |
| Suzanna Taverne | 5/7 | 3/3 | † | 3/3 | † | 3/3 | † | † | † | 1/1 |
| Yr Arglwydd Williams | 8/8 | † | 6/7 | 3/4 | 1/1* | † | † | † | † | † |

Nodiadau::
1 Nid oedd y Panel Apeliadau Cyffredinol yn cynnwys yr un aelodau yn gyson.
2 Mae aelodaeth y Bwrdd Cwynion ac Apeliadau yn cynnwys dau Ymddiriedolwr, ac Ymddiriedolwyr ychwanegol yn ôl yr angen.
* Yn dynodi Cadeirydd y pwyllgor yn ystod 2011/12.
** Nid yw'n cynnwys cyfarfod ad hoc o'r Pwyllgor a gynhaliwyd gyda'r Ymddiriedolwyr a oedd ar gael ar ddiwrnod y cyfarfod.
† Yn dynodi nad yw Ymddiriedolwr yn aelod o'r Pwyllgor a restrir.

**Newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau yn ystod 2011/12**

Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad: Y Fonesig Patricia Hodgson (hyd at fis Mai 2011); Suzanna Taverne (o fis Chwefror 2012).
Bwrdd Cwynion ac Apeliadau: Richard Ayre (Cadeirydd o fis Rhagfyr 2011); Mehmuda Mian (o fis Rhagfyr 2011).
Pwyllgor Safonau Golygyddol: Elan Closs Stephens (hyd at fis Tachwedd 2011); Anthony Fry (hyd at fis Tachwedd 2011); Yr Arglwydd Williams (o fis Ionawr 2012).
Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth/Pwyllgor Cyllid yr Ymddiriedolaeth: Rotha Johnston (Cadeirydd hyd at fis Rhagfyr 2011); Anthony Fry (Cadeirydd o fis Ionawr 2012); Y Fonesig Patricia Hodgson (hyd at fis Mai 2011); Bill Matthews (hyd at fis Tachwedd 2011); Yr Arglwydd Williams (o fis Ionawr 2012); Suzanna Taverne (o fis Chwefror 2012).
Pwyllgor Gwasanaethau Rhyngwladol: Yr Arglwydd Williams (Cadeirydd); Diane Coyle; Richard Ayre; David Liddiment; Elan Closs Stephens (pob un o fis Chwefror 2012).
Pwyllgor Cymeradwyo Strategol/Pwyllgor Strategaeth a Chymeradwyaeth: Y Fonesig Patricia Hodgson (hyd at fis Mai 2011); Rotha Johnston (hyd at fis Tachwedd 2011); Anthony Fry (o fis Rhagfyr 2011); Suzanna Taverne (o fis Chwefror 2012).
Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau: Syr Michael Lyons (Cadeirydd hyd at fis Ebrill 2011); Yr Arglwydd Patten (Cadeirydd o fis Mai 2011); Diane Coyle (o fis Mai 2011).

## Presenoldeb yr Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd Cyngor Cynulleidfa (1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012)

| Ymddiriedolwr | Presenoldeb |
|---|---|
| Alison Hastings | 7/7 |
| Rotha Johnston | 8/8 |
| Bill Matthews | 8/8 |
| Elan Closs Stephens | 7/7 |

# LLYWODRAETHU
## PARHAD

### Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

#### Ffioedd

Caiff ein ffioedd fel Ymddiriedolwyr eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ym mis Medi 2010, cymerodd yr Ymddiriedolwyr doriad cyflog gwirfoddol o 8.3% (sy'n cyfateb i fis o gyflog), fel y gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac aelodau eraill y Bwrdd Gweithredol. Bydd y ffioedd is ar gyfer Ymddiriedolwyr yn weithredol hyd at 31 Awst 2013 a chânt eu hadlewyrchu yn y tabl isod. Yr unig eithriad yw'r Cadeirydd, lle cafodd lefel y ffioedd ei gostwng 23% pan hysbysebwyd y swydd y tro diwethaf ac felly, nid oes gostyngiad pellach wedi'i gymhwyso. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn cael tâl am derfynu contract nac iawndal arall am golli swydd.

#### Treuliau

Cawn ein had-dalu am dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, sy'n cynnwys teithio, llety, prydau bwyd sy'n gysylltiedig â'r gwaith a lletygarwch. Caiff y treuliau rydym yn gymwys i'w hawlio eu llywodraethu gan God Ymarfer yr Ymddiriedolaeth, a gyhoeddir ar ein gwefan. Bob chwe mis rydym yn cyhoeddi rhestr lawn o'r holl dreuliau yr aed iddynt gan bob Ymddiriedolwr yn ogystal â'r gwasanaethau a archebwyd yn ganolog ar gyfer Ymddiriedolwyr gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

Caiff rhai o'n treuliau a'n gwasanaethau cymorth eu dosbarthu fel buddiannau trethadwy gan Gyllid a Thollau EM a chyhoeddir y ffigur hwn yn y tabl cydnabyddiaeth; caiff unrhyw dreth sy'n deillio o dreuliau yr eir iddynt ei thalu gan y BBC.

#### Buddiannau'r Cadeirydd

Nid yw'r Arglwydd Patten yn gymwys i gael unrhyw fuddiannau ac eithrio ei ffi, ac mae wedi dewis peidio â defnyddio un o yrwyr y BBC.

### Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

| | Ffioedd[1] £000 | Buddiannau trethadwy £000 | **Cyfanswm 2011/12 £000** | Cyfanswm 2010/11 £000 | Cyfnod penodi: Dyddiad dechrau | Cyfnod penodi: Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd ac Is-Gadeirydd** | | | | | | |
| Yr Arglwydd Patten[2*] | 101 | – | **101** | – | 1 Mai 11 | 30 Ebr 15 |
| Syr Michael Lyons[3] | 11 | 4 | **15** | 184 | 1 Mai 07 | 30 Ebr 11 |
| Diane Coyle[4*] | 67 | – | **67** | 34 | 1 Tach 06 | 30 Ebr 15 |
| Chitra Bharucha[5] | – | – | **–** | 44 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | |
| Alison Hastings[*] | 38 | – | **38** | 39 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| Rotha Johnston | 38 | – | **38** | 39 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 12 |
| Janet Lewis-Jones[5] | – | – | **–** | 23 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 10 |
| Bill Matthews[*†] | 38 | – | **38** | 9 | 1 Ion 11 | 31 Rhag 14 |
| Jeremy Peat[5] | – | – | **–** | 30 | 1 Ion 06 | 31 Rhag 10 |
| Elan Closs Stephens[*] | 38 | – | **38** | 16 | 1 Tach 10 | 31 Hyd 14 |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | |
| Richard Ayre | 33 | – | **33** | 22 | 1 Awst 10 | 31 Gor 14 |
| Anthony Fry | 33 | – | **33** | 34 | 1 Tach 08 | 31 Hyd 12 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson[3*] | 6 | – | **6** | 34 | 1 Tach 06 | 6 Meh 11 |
| David Liddiment | 33 | – | **33** | 34 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 14 |
| Mehmuda Mian | 33 | – | **33** | 34 | 1 Tach 06 | 31 Hyd 12 |
| Richard Tait[5] | – | – | **–** | 12 | 1 Awst 04 | 31 Gor 10 |
| Suzanna Taverne[2] | 8 | – | **8** | – | 1 Ion 12 | 31 Rhag 15 |
| Yr Arglwydd Williams[2*] | 11 | – | **11** | – | 1 Rhag 11 | 30 Tach 15 |
| **Cyfanswm** | 488 | 4 | **492** | 588 | | |

Nodiadau:

[1] Fel y nodwyd uchod, cymerodd yr Ymddiriedolwyr doriad cyflog gwirfoddol o 8.3%, fel y gwnaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Gweithredol, ym mis Medi 2010. Bydd y ffioedd gostyngedig ar gyfer yr Ymddiriedolwyr yn parhau i fod yn weithredol hyd at 31 Awst 2013.

[2] Dechreuodd penodiadau'r Arglwydd Patten, Suzanna Taverne a'r Arglwydd Williams ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol; yn unol â hynny, dim ond ar gyfer y cyfnod yn eu swyddi y mae eu ffioedd yn berthnasol ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.

[3] Daeth penodiadau Syr Michael Lyons a'r Fonesig Patricia Hodgson i ben ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol; yn unol â hynny, dim ond ar gyfer y cyfnod yn eu swyddi y mae eu ffioedd yn berthnasol ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.

[4] Penodwyd Diane Coyle fel Is-Gadeirydd ar 1 Mai 2011 a bydd ei chyfnod yn rhedeg hyd at 30 Ebrill 2015.

[5] Daeth penodiadau Chitra Bharucha, Janet Lewis-Jones, Jeremy Peat a Richard Tait i ben yn ystod y flwyddyn ariannol 2010/11; yn unol â hynny, dim ond ar gyfer y cyfnod yn eu swyddi y mae eu ffioedd yn berthnasol ac nid ydynt yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.

[*] Roedd gan yr holl Ymddiriedolwyr hyn fuddiannau trethadwy a oedd yn llai na £500 ac o ganlyniad fe'u talgrynnwyd i ddim. Hawliodd yr Ymddiriedolwyr hyn gyfanswm o £679.87.

[†] Bill Matthews yw Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth Pensiwn y BBC Cyf, ymddiriedolwr corfforaethol Cynllun Pensiwn y BBC. Caiff gydnabyddiaeth ar wahân ar gyfer ei rôl. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn y BBC.

# CYLLID YR YMDDIRIEDOLAETH

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ymrwymedig i sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC. Felly rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o redeg ein gweithrediadau yn fwy effeithlon, drwy herio sut a pham rydym yn gwneud pethau.

Rydym wedi gostwng cyfanswm ein gwariant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn bennaf, mae'r gostyngiad hwn o ganlyniad i'n hymdrechion i reoli ymchwil i'r gynulleidfa a chostau rheolaethol.

Rydym wedi ymrwymo i gadw ein gwariant uniongyrchol o dan 0.31% o gyfanswm incwm ffi'r drwydded y BBC. Gwnaethom gyflawni'r ymrwymiad hwn yn 2011/12 gyda gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth yn cynrychioli 0.25% o gyfanswm incwm ffi'r drwydded (0.31% yn 2010/11).

## Cydnabyddiaeth cyfarwyddwr ac uwch reolwyr

Nicholas Kroll, y Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth y BBC, yw Prif Swyddog yr Ymddiriedolaeth fel y nodir yn y Siarter. Ef yw prif gynghorydd yr Ymddiriedolaeth a Phrif Weithredwr Uned yr Ymddiriedolaeth. Ei gyflog sylfaenol ar gyfer 2011/12 oedd £238,680 (£238,680 yn 2010/11) a chyfanswm ei enillion hyd at 31 Mawrth 2012 oedd £246,480 (£281,004 yn 2010/11). Mae'n aelod o Gynllun Pensiwn y BBC.

Mae gan Uned yr Ymddiriedolaeth wyth uwch reolwr yn ogystal â'r Cyfarwyddwr. Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn rhoi dadansoddiad o nifer uwch reolwyr Uned yr Ymddiriedolaeth, wedi'i rannu yn fandiau cyflog o £5,000.

Ceir gwybodaeth am Bwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau'r Ymddiriedolaeth ar dudalen 1-30 a'n strategaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar dudalen 1-9. Caiff yr adran ar gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ar dudalen 1-32 ei harchwilio.

## Rheoliadau cynhyrchu adroddiadau

Mae'r Siarter Frenhinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon gael eu paratoi mewn dwy ran ac i'r ddwy ran gael eu harchwilio'n allanol. Felly gofynnwn i KPMG LLP gadarnhau ein bod wedi cyflwyno gwariant yr Ymddiriedolaeth yn gywir, yn cynnwys cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr, yn Rhan Un. Caiff adroddiad KPMG LLP ei gynnwys wrth ymyl y datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth ar dudalen 1-34. Mae'r BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Bach a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rhai yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ond lle y bo'n berthnasol, rydym wedi paratoi'r Adroddiad hwn fel pe bai'r gofynion hynny'n berthnasol.

### Datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth

| | Nodyn | 2011/12 £000 | 2010/11 £000 |
|---|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1 | **546** | 651 |
| Costau staff | 2 | **4,473** | 4,586 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | **3,855** | 5,097 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth cyn costau ailstrwythuro | | **8,874** | 10,334 |
| Costau ailstrwythuro | | **–** | 461 |
| Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolwyr | 4 & 5 | **8,874** | 10,795 |
| Ffioedd rheoleiddio Ofcom | 6 | **2,976** | 3,187 |
| Ffioedd Asesiad Ofcom o'r Effaith ar y Farchnad | 7 | **21** | 4 |
| Ffioedd Prawf Perthnasedd Ofcom | 8 | **26** | – |
| Cyfanswm ffioedd Ofcom i'w talu gan yr Ymddiriedolaeth | | **3,023** | 3,191 |
| Cyfanswm gwariant yr Ymddiriedolaeth | | **11,897** | 13,986 |

Nodiadau:

1 Dangosir cydnabyddiaeth pob Ymddiriedolwr yn y tabl ar dudalen 1-32. Mae'r ffigur yn y tabl uchod hefyd yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol.

2 Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

3 Mae costau gweithredu yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau megis gwaith ymchwil, cyngor cyfreithiol, gwasanaethau arbenigol eraill a gweithgareddau ymgynghori a digwyddiadau rhanddeiliaid yr Ymddiriedolaeth.

4 Mae hyn yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau a rennir a oedd yn cynnwys darparu eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwasanaethau gwybodaeth, a ddarparwyd gan wasanaethau cyhoeddus y BBC.

5 O wariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth, mae £999,691 yn ymwneud â gwariant ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn y pedair gwlad (£1,192,000 yn 2010/11). Mae hwn yn bennaf yn cwmpasu cymorth i'r pedwar Cyngor Cynulleidfa cenedlaethol a'r 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol.

6 Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio i'r BBC ac i'r sianelau darlledu eraill yn y DU. Yr Ymddiriedolaeth sy'n talu cyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw.

7 Mae ffioedd Asesiad Ofcom o'r Effaith ar y Farchnad (MIA) yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom wrth gynnal MIA o'r profion gwerth cyhoeddus. Ni wnaed unrhyw waith MIA yn ystod 2010/11 na 2011/12; y costau'n ymwneud â rheolaeth rhaglen Ofcom o MIA.

8 Mae ffioedd Profion Perthnasedd Ofcom yn cwmpasu costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom wrth wneud gwaith i roi mewnbwn ym Mhrofion Perthnasedd yr Ymddiriedolaeth.

### Pobl yr Ymddiriedolaeth

| | Nodyn | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn 2011/12 | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn 2010/11 |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr (nifer) | | **10.8** | 11.6 |
| Staff Uned yr Ymddiriedolaeth (EFT) | 1 & 2 | **67.3** | 68.6 |

1 Staff Uned yr Ymddiriedolaeth yw'r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan Uned yr Ymddiriedolaeth.

2 O'r 67.3 o staff Uned yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfwerth ag amser llawn (EFT) ar gyfer 2011/12, roedd 19.4 EFTs wedi'u lleoli y tu allan i Lundain ac yn hwyluso'r gwaith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth yn y pedair gwlad – Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr (18.3 yn 2010/11). Mae 13% yn dod o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig (13% yn 2010/11), mae 3.1% yn anabl (7% yn 2010/11) ac mae 68% yn ferched (67% yn 2010/11).

# CYLLID YR YMDDIRIEDOLAETH
## PARHAD

### Adroddiad KPMG LLP i Ymddiriedolaeth y BBC

Yn unol â thelerau ein llythyr penodi dyddiedig 3 Mehefin 2008, rydym wedi archwilio'r datganiad o wariant ar dudalen 1-33 ('datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 a baratowyd, yn unol â gofynion Siarter Frenhinol y BBC dyddiedig Hydref 2006, gan yr Ymddiriedolwyr a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdano.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein llythyr penodi, yw ffurfio barn annibynnol, ar sail y gwaith a wnaed, a chyflwyno ein barn i'r Ymddiriedolaeth. Roedd ein hastudiaeth yn llawer llai manwl nag archwiliad neu arolwg.

Paratowyd ein hadroddiad i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Siarter Frenhinol yn unig. Cynlluniwyd ein hadroddiad i fodloni'r gofynion y cytunwyd arnynt â'r Ymddiriedolaeth a nodweddion arbennig ein penodiad a bennwyd gan anghenion yr Ymddiriedolaeth ar y pryd. Felly ni ddylid ystyried ein hadroddiad fel deunydd addas i'w ddefnyddio nac i ddibynnu arno gan unrhyw barti sy'n awyddus i gaffael hawliau yn ein herbyn ac eithrio'r Ymddiriedolaeth at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun. Bydd unrhyw barti arall ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a fydd yn cael gafael ar ein hadroddiad (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd KPMG LLP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth mewn perthynas â'n hadroddiad i unrhyw barti arall.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant fel y'i nodir yn natganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth wedi'i dynnu'n gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar sail Nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth.

**Scott Cormack**
**Dros ac ar ran KPMG LLP**
Chartered Accountants
15 Canada Square
London E14 5GL
21 Mehefin 2012

### Datganiad o gyfrifoldebau o ran yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi mewn dwy ran, Rhan Un gan yr Ymddiriedolaeth a Rhan Dau gan y Bwrdd Gweithredol. Manylir ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn yr adran Llywodraethu yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Yn gryno, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau llywodraethu corfforaethol cymwys a rheoliadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth, gan gyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE (EU IFRS), gan adlewyrchu'r ffaith y caifff EU IFRS eu defnyddio'n gyffredin yn y DU, yn cael eu mabwysiadu yn y sector cyhoeddus, ac y byddai eu defnydd yn cael ei ganiatáu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Caiff y datganiadau ariannol hyn eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Cyfunol 2010 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hyn, mae'n rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y datgeliadau hyn, a archwilir, a chânt eu cynnwys yn Rhan Un o'r adroddiad hwn. Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i gynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol.

### Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwr i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan yr Ymddiriedolaeth ar 21 Mehefin 2012.

**Yr Arglwydd Patten o Barnes**
**Cadeirydd**
21 Mehefin 2012

# CYSYLLTU Â'R YMDDIRIEDOLAETH

Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i glywed eich barn yn ystod ymgynghoriadau ac arolygon gwasanaeth. Gallwch hefyd gysylltu â'r Ymddiriedolaeth i wneud sylwadau ar faterion yn ymwneud â busnes yr Ymddiriedolaeth, apelio yn erbyn penderfyniad a wnaeth y Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â chwyn, neu gwyno am yr Ymddiriedolaeth neu Uned yr Ymddiriedolaeth. Gallwch gysylltu â'r Ymddiriedolaeth drwy'r post, dros e-bost neu dros y ffôn.

**Ymddiriedolaeth y BBC**
1st Floor
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

www.bbc.co.uk/bbctrust

Ffôn: Gwasanaethau Cynulleidfa'r BBC ar 03700 103 100 neu ar ffôn testun ar 03700 100 212*

Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o faterion yn effeithiol drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r rhan berthnasol o'r BBC, yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cwynion am raglenni, ymholiadau ynglŷn â thalu eich trwydded deledu, cwestiynau am sut i gael tocynnau i sioeau'r BBC neu sut i weithio i'r BBC, ac awgrymiadau o ran syniadau ar gyfer rhaglenni. I gael rhagor o wybodaeth am sut i gysylltu â'r BBC ynghylch y cwestiynau hyn, gweler www.bbc.co.uk/aboutthebbc

* Gellir recordio galwadau at ddibenion hyfforddiant. Rhifau 'ledled y DU' yw rhifau 0370 ac ni fyddant yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.

**Cwynion**
Mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod gan y BBC fframwaith clir, teg, effeithlon ac amserol ar waith i ymateb i gwynion. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn am y broses gwynio ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/complaints

**Cynghorau Cynulleidfa'r BBC**
Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ynghylch pa mor dda mae'r BBC yn gwasanaethu talwyr ffi'r drwydded ledled y DU. Hefyd, mae gan y Cynghorau hawl ffurfiol i gael eu cynnwys ar faterion fel arolygon o drwyddedau gwasanaeth. Sut i gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa:

**Cyngor Cynulleidfa Lloegr**
E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:
BBC Audience Council England
The Mailbox
Birmingham B1 1RF

**Cyngor Cynulleidfa'r Alban**
E-bost: acs@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:
BBC Audience Council Scotland
Zone G.11
40 Pacific Quay
Glasgow G51 1DA

**Cyngor Cynulleidfa Cymru**
E-bost: acw@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:
Cyngor Cynulleidfa Cymru'r BBC
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

**Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon**
E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

Neu ysgrifennwch i:
BBC Audience Council Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Room G08
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

**Credydau ffotograffiaeth**
Mae gan y BBC hawlfraint dros y ffotograffau neu maent wedi'u defnyddio o dan delerau cytundeb PACT, ac eithrio'r ffotograff ar dudalen 15, (h) Betina Skovbro a'r ffotograff ar dudalen 21 (h) Chris Christodoulou. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

BBC Trust Ymddiriedolaeth

Sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael y gorau o'r BBC

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
(h) BBC 2012